# Is-ddeddfwriaeth Cwricwlwm i Gymru: Crynodeb o Ymatebion

Rhagfyr 2021

## Wavehill: Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd

Awduron yr adroddiad:

Llorenc O'Prey, Sam Grunhut, Nikola Vousden, Anna Burgess, ac Endaf Griffiths

Rhagfyr 2021

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: 2-4 Park Street, Bristol, BS1 5HS
- Swyddfa Gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- Swyddfa Llundain: 52 Cecile Park, Crouch End, London, N8 9AS

Manylion cyswllt:

Ffôn: 01545 571711
E-bost: wavehill@wavehill.com
Twitter: @wavehilltweets
Gwefan: www.wavehill.com

Dylai unrhyw gwestiynau'n ymwneud â'r adroddiad hwn gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at Llorenc O'Prey (llorenc.oprey@wavehill.com)

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol .......... 2

1 Cyflwyniad .......... 7

2 Trefniadau Asesu .......... 10

3 Dealltwriaeth Gyffredin o Gynnydd .......... 26

4 Cynlluniau Trosglwyddo .......... 34

5 Rhoi Adroddiad i Rieni a Gofalwyr .......... 40

6 Y Gymraeg .......... 49

7 Casgliadau .......... 51

Atodiad 1: Cwestiynau'r Ymgynghoriad .......... 52

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad annibynnol o'r ymgynghoriad a oedd yn archwilio'r cynigion sydd wedi'u cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 mewn perthynas ag asesu. Mae'n cyflwyno'r farn a'r safbwyntiau a gynigiwyd gan yr ymatebwyr mewn perthynas â'r cynigion.

## Cefndir

Fel rhan o'r diwygiadau ehangach sy'n rhan o'r Cwricwlwm i Gymru, mae Llywodraeth Cymru'n ceisio creu is-ddeddfwriaeth newydd a diwygio rhywfaint o ddeddfwriaeth bresennol fel ei bod yn cyd-fynd ag ethos y Cwricwlwm i Gymru. Diben hyn yw sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol yn cynorthwyo lleoliadau ac ysgolion i wireddu'r cwricwlwm newydd, gan gynnwys bwrw ymlaen â'r nodau a'r amcanion allweddol mewn perthynas ag asesu a chynnydd.

Er mwyn datblygu a mireinio'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â threfniadau asesu, aeth Llywodraeth Cymru ati i gasglu barn a safbwyntiau'r gymuned addysgol a rhanddeiliaid ehangach ynglŷn â'r cynigion. Lansiwyd y cynigion ym mis Medi 2021, a'u gwneud yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

## Ymatebion

Derbyniwyd cyfanswm o 78 ymateb ffurfiol oddi wrth amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebion gan ymarferwyr ynghyd â'r rhai sy'n eu cynorthwyo, gan gynnwys llywodraethwyr a swyddogion gwella ysgolion. At hynny, roeddent yn cynnwys ymatebion gan sefydliadau ehangach sy'n cynorthwyo lleoliadau ac ysgolion, fel awdurdodau lleol, cyrff ymbarél, ac Estyn.

Yn ogystal â dulliau ymgysylltu mwy ffurfiol, cynhaliwyd saith gweithdy gydag amryw randdeiliaid allweddol. Roedd y rhain yn cynnwys rhai a oedd yn llai tebygol o ymgysylltu drwy ymgynghoriad mwy ffurfiol, gan gynnwys dysgwyr a rhieni neu ofalwyr. Roeddent hefyd yn cynnwys sgyrsiau manylach gyda llywodraethwyr ysgolion ac uwch arweinwyr ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru.

Nid yw'r ymatebwyr a fu'n ddigon caredig i gyfrannu'u barn a'u safbwyntiau o anghenraid yn gynrychioliadol o'r gymuned addysgol ehangach, gan gynnwys dysgwyr, rhieni, ymarferwyr, ac uwch arweinwyr. Dylid ystyried felly bod y dadansoddiad hwn yn darparu awgrym o'r farn a'r safbwyntiau sydd gan bobl a chymunedau mewn perthynas â'r is-ddeddfwriaeth, yn hytrach na'i fod yn rhoi cyfrif pendant o farn pobl a chymunedau ledled Cymru.

# Canfyddiadau Allweddol

## Canfyddiadau Trosfwaol

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol ynglŷn â sylwedd y cynigion, gan gynnwys cyfeiriad ac amcanion cyffredinol y ddeddfwriaeth. Ar draws gwahanol agweddau ar yr is-ddeddfwriaeth, teimlodd rhai y byddai rhagor o wybodaeth a chanllawiau'n ddefnyddiol er mwyn cynorthwyo ymgysylltiad ac er mwyn rhoi'r cynigion ar waith wedi hynny. Roedd hyn yn cynnwys cael eglurhad ar rai agweddau penodol ar y ddeddfwriaeth, fel rôl llywodraethwyr o ran cyflawni'u dyletswyddau ynglŷn â threfniadau asesu. Roedd gwybodaeth, arweiniad a chymorth pellach hefyd, fel esiamplau a hyfforddiant, hefyd yn cael eu hystyried yn werthfawr er mwyn gweithredu ar y ddeddfwriaeth. Roedd rhai'n teimlo y byddai arweiniad pellach ar sut y gallai asesu a chynnydd gael eu hymgorffori mewn dysgu ac addysgu yn hybu dealltwriaeth ac ymgysylltu ymysg ymarferwyr. At hynny, roedd rhagor o wybodaeth a chanllawiau'n aml yn cael eu hystyried yn bwysig er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r heriau ymarferol a godwyd gan leoliadau ac ysgolion, gan gynnwys yr amser a'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i ymwneud â'r cynigion a'r Cwricwlwm i Gymru yn fwy cyffredinol.

## Trefniadau Asesu

O ran eglurder y cynigion ynghylch trefniadau asesu, roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo y byddai rhagor o wybodaeth a chanllawiau'n werthfawr, yn enwedig er mwyn deall goblygiadau ymarferol y cynigion i leoliadau ac ysgolion. Roedd hyn yn cynnwys mwy o eglurhad o rai o'r disgwyliadau a osodir ar leoliadau ac ysgolion, fel pwy fydd yn gyfrifol am drefniadau asesu mewn lleoliadau a ariennir nas cynhelir. At hynny, roedd rhagor o wybodaeth a chanllawiau'n cael eu hystyried yn werthfawr er mwyn cynorthwyo'r gwaith o lunio'r trefniadau asesu, gan gynnwys eu hymgorffori mewn dysgu ac addysgu.

Siaradodd y dysgwyr yn huawdl am bwysigrwydd adborth amserol, penodol ac unigol i gynorthwyo eu cynnydd. Gyda'i gilydd, mae'n ymddangos bod safbwyntiau'r dysgwyr yn cefnogi cyfeiriad cyffredinol y cynigion, gan gynnwys y pwyslais a roddir ar ymgorffori asesu ffurfiannol, unigol a pharhaus mewn dysgu ac addysgu. Yn fwy cyffredinol, roedd rhai ymarferwyr a rhanddeiliaid ehangach yn croesawu'r ymagwedd at asesu fel sydd wedi'i chynnwys yn y Cwricwlwm i Gymru, ac yn teimlo y byddai'n cefnogi cynnydd dysgwyr yn effeithiol. Er mwyn ymgorffori trefniadau asesu'n effeithiol mewn dysgu ac addysgu, roedd eraill wedyn yn teimlo y byddai rhagor o wybodaeth, adnoddau a chymorth yn werthfawr er mwyn datblygu dealltwriaeth a mynd i'r afael â'r heriau a'r rhwystrau ymarferol sy'n wynebu lleoliadau ac ysgolion.

Oddi mewn i drefniadau asesu, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn mynegi teimladau cadarnhaol tuag at y cynigion ynghylch asesiadau dechreuol. Roedd y rhain yn cynnwys y consensws cyffredinol bod asesiadau dechreuol yn ffordd briodol i ddechrau deall a chynorthwyo cynnydd dysgwr unigol. Cyfeiriodd yr ymatebwyr hefyd at amrywiaeth o ystyriaethau ymarferol, gan gynnwys goblygiadau llunio a chynnal yr asesiad ar lwyth gwaith.

## Dealltwriaeth Gyffredin o Gynnydd

Dywedodd llawer o'r ymatebwyr fod y disgwyliadau ynghylch datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd wedi'u cyflwyno'n glir yn y cynigion. Unwaith eto, cynigiodd yr ymatebwyr awgrymiadau ynghylch pa wybodaeth a chanllawiau ychwanegol allai fod yn werthfawr, er mwyn cryfhau'r cynigion a hybu ymgysylltiad a deialog broffesiynol. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau am sut y dylai cynnydd ei hun gael ei ymgorffori mewn dysgu ac addysgu. O'r safbwyntiau hyn, byddai canllawiau neu esiamplau yn helpu'r ymarferwyr i weld sut y gallai trefniadau asesu gynorthwyo cynnydd a hwyluso datblygiad dealltwriaeth gyffredin o gynnydd oddi mewn i leoliadau ac ysgolion a rhyngddynt.

Yn ogystal ag ystyriaethau ymarferol fel llwyth gwaith, teimlodd rhai ymatebwyr y byddai cyfathrebu a chydweithio manwl yn hanfodol i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd sy'n ystyrlon a rhesymegol. Dywedodd yr ymatebwyr y byddai angen ymrwymiad a pharch at ei gilydd, yn enwedig rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd a lleoliadau eraill, er mwyn adeiladu cydberthnasau llwyddiannus. Amlygodd yr ymatebwyr hefyd pa gymorth ehangach fyddai'n ddefnyddiol, gan gynnwys er mwyn hwyluso deialog rhwng ysgolion.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn ystyried bod y cynnig i gwrdd yn dymhorol, yn fewnol a rhwng gwahanol leoliadau ac ysgolion, yn briodol a realistig. O'r safbwyntiau hyn, byddai deialog broffesiynol barhaus wedi'i hwyluso gan gyfarfodydd tymhorol yn bwysig i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd a gyrru gwelliannau mewn ysgolion.

## Cynlluniau Trosglwyddo

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod y cynigion a'r disgwyliadau a osodir ar ysgolion ynglŷn â chynlluniau trosglwyddo yn eglur ac effeithiol. Roeddent yn aml yn cydnabod gwerth a phwysigrwydd dulliau mwy unigol, aflinol o gynorthwyo parhad dysgu a chynnydd, gan gynnwys wrth drosglwyddo. At hynny, teimlodd rhai y dylai'r cynigion ymestyn i gynnwys dysgwyr sy'n trosglwyddo o leoliadau meithrin i ysgolion cynradd.

O ran y wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn cynlluniau trosglwyddo, roedd rhai ymatebwyr yn petruso ynglŷn â chynnwys gwybodaeth am lesiant dysgwyr, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd meddwl. Teimlodd rhai nad oedd yn briodol i ymarferwyr heb hyfforddiant ffurfiol ym maes deall ac ymateb i faterion iechyd meddwl wneud sylwadau am lesiant dysgwyr. Yn fwy cyffredinol, nodwyd (unwaith eto) bod cyfyngiadau capasiti yn rhwystr posibl i fynd i'r afael yn effeithiol â chynlluniau trosglwyddo. Teimlodd rhai y byddai rhagor o wybodaeth, gan gynnwys esiamplau a chynlluniau pro fforma, yn ddefnyddiol.

## Rhoi Adroddiad i Rieni a Gofalwyr

Siaradodd rhieni a gofalwyr yn gyson am bwysigrwydd a gwerth bod ysgolion yn cyfathrebu â hwy. Roedd y themâu allweddol yn cynnwys ansawdd y wybodaeth yn hytrach na faint o wybodaeth sy'n cael ei darparu gan leoliadau ac ysgolion. Dywedodd llawer o rieni a gofalwyr eu bod o'r farn bod gwybodaeth ymarferol ac amserol yn werthfawr er mwyn ymwneud ag addysg eu plant.

Mynegodd y dysgwyr hefyd bwysigrwydd bod eu rhieni'n deall beth maent yn ei ddysgu yn yr ysgol. Roeddent yn teimlo ei bod yn bwysig i'w rhieni neu ofalwyr ddeall beth maent yn ei ddysgu yn yr ysgol er mwyn i'w rhieni wedyn drafod gyda hwy a'u cynorthwyo. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod anghytundeb ynglŷn â chynnwys gwybodaeth ehangach am lesiant mewn gohebiaeth â rhieni ymysg y dysgwyr. Roedd rhai'n croesawu'r cynigion, a theimlodd eraill eu bod yn amhriodol.

Yn fwy cyffredinol, roedd mwyafrif clir o'r ymatebwyr yn teimlo'n gadarnhaol bod y cynigion yn eglur ac effeithiol. Gofynnodd rhai ymatebwyr am wybodaeth bellach ynglŷn â'r dulliau y dylai ymarferwyr ac ysgolion eu defnyddio i gyfathrebu â rhieni a gofalwyr. Roedd hyn yn cynnwys rhagor o ganllawiau ar ymgysylltu'n effeithiol â rhieni a gofalwyr, gan gynnwys y rhai sydd anoddaf eu cyrraedd. Gwnaeth ymarferwyr ac uwch arweinwyr fynegi pryderon hefyd ynglŷn â phriodoldeb a goblygiadau rhoi adroddiad i rieni a gofalwyr ynglŷn â llesiant dysgwyr, yn enwedig eu hiechyd meddwl.

## Y Gymraeg

Teimlodd llawer y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol neu fechan iawn ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. O ran hyrwyddo a hybu'r Gymraeg, thema allweddol a godwyd gan yr ymatebwyr oedd pwysigrwydd adnoddau a chanllawiau dwyieithog, amserol i gynorthwyo pob ysgol, gan gynnwys lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Mynegodd yr ymatebwyr ystyriaethau hefyd yn ymwneud â chyswllt a chyfathrebu rhwng lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, a rhwng ymarferwyr a rhieni neu ofalwyr. Gallai hwyluso a chymorth fod yn ddefnyddiol i hybu gohebiaeth ddwyieithog, effeithiol, gan gynnwys drwy gynlluniau trosglwyddo, ac ymgysylltu â rhieni a gofalwyr.

## Casgliadau

Yn gyffredinol, roedd yno ddau safbwynt penodol ar y cynigion sydd wedi'u cyflwyno yn yr is-ddeddfwriaeth. Roedd y cyntaf yn canolbwyntio ar eglurder y cynigion o ran mynegi'r disgwyliadau sy'n cael eu gosod ar ysgolion. Ar y cyfan, amlygodd yr ymatebwyr ble fyddai mwy o eglurder yn ddefnyddiol, gan gynnwys er mwyn pennu cyfrifoldeb a threfniadau llywodraethu. Roedd hyn yn dueddol o olygu addasiadau cymharol fân i eiriad y cynigion.

Roedd yr ail safbwynt yn canolbwyntio ar oblygiadau ymarferol y cynigion. Awgrymodd hyn fod llawer o'r ymatebwyr yn mynd y tu hwnt i'r ddeddfwriaeth i ystyried sut beth fyddai asesu a chynnydd yn ymarferol. I lawer, byddai materion fel amser, hyder a sgiliau yn ganolog i roi'r cynigion ar waith yn effeithiol. Roedd yr ymatebwyr yn aml yn teimlo y gallai cyfyngiadau ymarferol, fel yr amser a'r adnoddau cyfyngedig i ymwneud â'r cynigion, gyfyngu ar ymgysylltiad, gan gynnwys o ran dylunio trefniadau asesu a'u rhoi ar waith.

Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth i deimlad ac amcanion cyffredinol y ddeddfwriaeth arfaethedig, gan gynnwys ynghylch nodau'r cynigion a sut y byddent yn cefnogi cynnydd dysgwyr. Mae hyn yn awgrymu bod yno lefel o gonsensws ynghylch amcanion y ddeddfwriaeth, a oedd yn amodol ar amrywiaeth ehangach o gwestiynau ymarferol, gan gynnwys yr effaith bosibl ar lwyth gwaith.

## Ymgyfarwyddo â'r Adroddiad Hwn

Caiff y canfyddiadau hyn eu harchwilio'n fanylach yn yr adroddiad. Wrth gyflwyno'r canfyddiadau, mae'r adroddiad yn dilyn strwythur cyffredinol y ddogfen ymgynghori ei hun. Caiff pob maes penodol yn y cynigion ei ddadansoddi'n fanwl mewn penodau unigol yn yr adroddiad. Caiff crynodeb trosfwaol, cyffredinol, ei ddarparu yn y Casgliadau.

# 1 Cyflwyniad

Mae’r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad annibynnol o’r ymgynghoriad a oedd yn archwilio’r cynigion sydd wedi’u cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 mewn perthynas ag asesu. Mae’n cyflwyno’r farn a’r safbwyntiau a gynigiwyd gan yr ymatebwyr mewn perthynas â’r cynigion.

## 1.1 Cefndir

Fel rhan o’r diwygiadau ehangach sy’n rhan o’r Cwricwlwm i Gymru, mae Llywodraeth Cymru’n ceisio creu is-ddeddfwriaeth newydd a diwygio rhywfaint o ddeddfwriaeth bresennol ynghylch asesu fel ei bod yn cyd-fynd ag ethos y Cwricwlwm i Gymru. Diben hyn yw sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol yn cynorthwyo lleoliadau ac ysgolion i wireddu’r cwricwlwm newydd, gan gynnwys bwrw ymlaen â’r nodau a’r amcanion allweddol mewn perthynas ag asesu a chynnydd. Yn benodol, mae’r cynigion yn cyflwyno bwriadau Llywodraeth Cymru ynghylch:

- **asesu mewn lleoliadau ac ysgolion**, gan gynnwys pwysigrwydd datblygu, gweithredu ac adolygu trefniadau asesu.
- cryfhau’r berthynas rhwng asesu a chynnydd drwy **hyrwyddo a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd** ymysg cydweithwyr mewn lleoliadau neu ysgolion.
- cynorthwyo **trosglwyddiadau effeithiol o ysgolion cynradd ac uwchradd**, gan gynnwys hybu cyfathrebu effeithiol rhwng ysgolion.
- cynorthwyo **rhieni a gofalwyr i ymwneud â’r cwricwlwm newydd**, gan gynnwys drwy hybu cyfathrebu effeithiol rhwng teuluoedd ac ysgolion.

I gael rhagor o wybodaeth am yr is-ddeddfwriaeth arfaethedig, gweler y Ddogfen Ymgynghori sy’n cyflwyno’r cynigion yn fanylach.


Er mwyn datblygu a mireinio’r ddeddfwriaeth, aeth Llywodraeth Cymru ati i gasglu barn a safbwyntiau’r gymuned addysgol a rhanddeiliaid ehangach ynglŷn â’r cynigion. Lansiwyd y cynigion ym mis Medi 2021, a’u gwneud yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Gwahoddwyd dysgwyr, rhieni, ymarferwyr, uwch arweinwyr a grwpiau eraill o randdeiliaid i rannu eu barn. Cynigiwyd amrywiaeth o gyfleoedd i ymatebwyr fynegi’u barn, gan gynnwys llenwi holiadur ar-lein a thrwy weithdai. Mae’r dadansoddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o’r sgyrsiau a’r safbwyntiau a gynigiwyd gan yr ymatebwyr.

## 1.2 Ymatebion

Gwahoddwyd ymatebwyr i rannu eu barn mewn amryw ffyrdd, gan gynnwys drwy ymgynghoriad ffurfiol, gweithdai a digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid.

## Ymatebion i'r Ymgynghoriad Ffurfiol

Derbyniwyd cyfanswm o 78 o ymatebion oddi wrth amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebion gan uwch arweinwyr, athrawon, a swyddogion gwella ysgolion:




Roedd yr ymatebwyr hefyd yn cynrychioli amrywiaeth eang o sefydliadau drwy'r gymuned addysgol. Er enghraifft, derbyniwyd ymatebion oddi wrth ymarferwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ac mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig. At hynny, derbyniwyd ymatebion gan sefydliadau ehangach sy'n cynorthwyo lleoliadau ac ysgolion, fel awdurdodau lleol, cyrff ymbarél, ac Estyn.

## Gweithdai

Yn ogystal â dulliau ymgysylltu mwy ffurfiol, cynhaliwyd saith gweithdy gydag amryw randdeiliaid allweddol. Roedd y rhain yn cynnwys rhai a oedd yn llai tebygol o ymgysylltu drwy ymgynghoriad mwy ffurfiol, gan gynnwys dysgwyr a rhieni neu ofalwyr. Roeddent hefyd yn cynnwys sgyrsiau manylach gyda llywodraethwyr ysgolion ac uwch arweinwyr ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru.

Er mwyn ymgysylltu â dysgwyr, bu dwy ysgol yn ddigon caredig i gynorthwyo’r ymchwil. Roedd hyn yn cynnwys ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ac ysgol gynradd cyfrwng Saesneg. Yn garedig, gwnaeth yr uwch arweinwyr gynnull gweithdai gyda dysgwyr o bob rhan o’r ysgol. Mewn sesiwn llais y dysgwr, cyflwynwyd amryw gwestiynau i’r dysgwyr, gan gynnwys y gwerth a’r pwysigrwydd sydd, yn eu barn hwy, i adborth gan eu hathrawon. Roedd y sesiynau hefyd yn archwilio barn y dysgwyr am rannu gwybodaeth gyda’u rheini. Ar ôl hynny, aeth yr uwch arweinwyr ati i nodi’r materion a’r themâu a fynegwyd gan y dysgwyr mewn ffurf ysgrifenedig, ac ymgorfforwyd y rhain wedyn yn y dadansoddiad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

## 1.3 Dull Dadansoddi

Er mwyn deall y materion a’r themâu a godwyd gan yr ymatebwyr yn ystod yr ymgynghoriad, cynhaliodd Wavehill, sefydliad ymchwil annibynnol, ddadansoddiad o’r ymatebion. Bwriad y dadansoddiad oedd deall a mapio’r amrywiaeth o farn a safbwyntiau sydd gan yr ymatebwyr ynglŷn â’r cynigion sydd wedi’u cynnwys yn yr is-ddeddfwriaeth.

Er mwyn dadansoddi’r safbwyntiau a fynegwyd gan yr ymatebwyr, cynhaliodd yr awduron ddadansoddiad thematig manwl. Mae’r dull hwn yn archwilio pob ymateb yn systematig ac yn tynnu sylw at y themâu a’r materion sy’n cael eu codi. O’r dadansoddiad hwn, gall y tîm wedyn archwilio pa mor gyffredin yw barn a safbwyntiau penodol.

## 1.4 Cyfyngiadau

Mae nifer o gyfyngiadau mewn perthynas â’r dadansoddiad hwn sy’n bwysig i’w nodi. Nid yw’r ymatebwyr a fu’n ddigon caredig i gyfrannu eu barn a’u safbwyntiau o anghenraid yn gynrychioliadol o’r gymuned addysgol ehangach, gan gynnwys dysgwyr, rhieni, ymarferwyr ac uwch arweinwyr. Mae’r tebygolrwydd uchel o hunan-ddewis a’r nifer cymharol fach o ymatebion gan grwpiau rhanddeiliaid allweddol yn cynyddu’r posibilrwydd bod gan y rhai a ymatebodd farn a safbwyntiau sy’n wahanol yn ansoddol i farn a safbwyntiau sydd i’w canfod ymysg ymarferwyr, sefydliadau a chymunedau ledled Cymru yn fwy cyffredinol.

**Gyda’i gilydd, felly, dylid ystyried bod y dadansoddiad hwn yn dangos rhywfaint o’r farn a’r safbwyntiau sydd gan bobl a chymunedau mewn perthynas â’r is-ddeddfwriaeth, yn hytrach na’i fod yn rhoi cyfrif pendant o farn pobl a chymunedau ledled Cymru.**

Trown yn awr i amlinellu’r prif themâu sy’n codi ar draws yr ymatebion yn erbyn cynigion yr is-ddeddfwriaeth a nodwyd yn yr ymgynghoriad.

# 2 Trefniadau Asesu

Bwriad y cynigion ynghylch yr is-ddeddfwriaeth yw disodli amryw offerynnau statudol presennol mewn perthynas â threfniadau asesu mewn lleoliadau ac ysgolion.

**Crynodeb o'r Cynigion**

Mae Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn symud i ffwrdd oddi wrth Gwricwlwm Cenedlaethol a ragnodir drwy Raglenni Astudio, Camau a Chyfnodau Allweddol. Yn lle hynny, mae'r cynigion yn rhoi i bob lleoliad ac ysgol yng Nghymru y cyfle i ddylunio eu cwricwlwm eu hunain yn unol â fframwaith cenedlaethol sy'n sicrhau cysondeb.

O dan y Cwricwlwm i Gymru, mae cynnydd dysgwyr yn digwydd ar hyd un continwwm dysgu. Diben asesu yn y Cwricwlwm i Gymru yw cefnogi a galluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol ar hyd y continwwm, gan sicrhau y caiff ei gefnogi a'i herio'n briodol.

Gan y bydd y camau a'r cyfnodau allweddol presennol yn cael eu disodli gan gontinwwm dysgu, y bwriad yw symud oddi wrth asesiadau crynodol gan athrawon ar ddiwedd pob cam a chyfnod allweddol i'w cynnal ar ddiwedd pob blwyddyn, tuag at system lle y caiff asesu ei ymgorffori mewn ymarfer o ddydd i ddydd ac na ellir gweld y gwahaniaeth rhwng asesu ac addysgu a dysgu.

Ysgolion unigol fydd yn penderfynu ar y trefniadau asesu sydd fwyaf priodol i'w helpu i gyflwyno eu cwricwlwm. Mae'r canllawiau statudol arfaethedig yn nodi y dylai hyn gael ei wneud fel rhan o'r broses o ddylunio'r cwricwlwm er mwyn sicrhau y caiff y cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud ei gynllunio'n briodol, ei ddeall a'i gefnogi.


## 2.1 Eglurder y Cynigion

Gofynnwyd i'r ymatebwyr yn gyntaf am eu barn ynghylch a oedd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn eglur o ran y disgwyliadau a osodir ar leoliadau ac ysgolion o ran trefniadau asesu.[1]

[1] Cwestiwn 4: A yw'r disgwyliadau a osodir ar leoliadau ac ysgolion o ran trefniadau asesu yn eglur?

### 2.1.1 Canfyddiadau Cyffredinol

O ran eglurder y cynigion, teimlodd llawer o ymatebwyr y byddai rhagor o wybodaeth yn ddefnyddiol, yn enwedig er mwyn deall goblygiadau ymarferol y cynigion i leoliadau ac ysgolion. Roedd hyn yn awgrymu bod llawer o ymatebwyr yn dehongli ac yn myfyrio ar y cynigion o safbwynt beth allent ei olygu i'w lleoliad neu'u hysgol hwy, gan gynnwys eu rhoi ar waith yn ymarferol. Pan ofynnwyd ynglŷn ag i ba raddau roedd y disgwyliadau a osodir ar leoliadau ac ysgolion mewn perthynas â threfniadau asesu yn eglur, roedd yr ymatebwyr yn rhanedig, gyda'r mwyafrif o'r farn eu bod yn aneglur:




C4: N=71

Roedd y rhai a fynegodd eu bod yn teimlo bod y cynigion yn aneglur yn tueddu i ddweud yr hoffent weld rhagor o wybodaeth neu ganllawiau, naill ai yn y cynigion neu'n fwy cyffredinol. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth a allai gynorthwyo'r ymarferwyr i ymwneud â'r cynigion, er enghraifft wrth gynllunio a dylunio'r trefniadau asesu yn ymarferol a'u hymgorffori mewn dysgu ac addysgu.

### 2.1.2 Themâu Allweddol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn i ymhelaethu ar eu barn ynghylch eglurder y cynigion. Roedd yr amryw themâu a gododd yn yr ymatebion yn cynnwys adborth ac awgrymiadau yn ymwneud â'r cynigion eu hunain, yn ogystal ag ystyriaethau mwy cyffredinol ynglŷn â rhoi'r trefniadau asesu ar waith yn ymarferol.

#### Disgwyliadau Eglur

Roedd lleiafrif, o fymryn, o'r ymatebwyr yn teimlo bod y cynigion yn eglur. O'r safbwyntiau hyn, roedd y cynigion yn effeithiol ar gyfathrebu hyd a lled y disgwyliadau a osodir ar leoliadau ac ysgolion mewn perthynas â threfniadau asesu:

> *Mae'r wybodaeth yn eglur ac yn nodi gwahaniaethau allweddol rhwng y trefniadau presennol a'r trefniadau newydd.*

Pennaeth, Ysgol Gynradd

> *Mae'r trefniadau asesu a pherchnogaeth y prosesau wedi'u mynegi'n eglur yn y pwyntiau a wneir yn y ddogfen ymgynghori.*

Blynyddoedd Cynnar Cymru

Aeth rhai ymatebwyr yn bellach gan fynegi cefnogaeth ehangach i'r dull gweithredu cyffredinol o ran asesu a amlinellir yn y cynigion. O'r safbwyntiau hyn, roedd gogwydd a chyfeiriad cyffredinol y cynigion yn cael eu croesawu a byddent yn effeithiol ar gynorthwyo'r dysgwyr:

> *Rwy'n teimlo y caiff ystyriaeth ei rhoi i bob maes a bydd yn gweithio'n dda tuag at ddysgu ac addysg y disgyblion.*

Llywodraethwr, Corff Llywodraethu Llywodraethwr, Corff Llywodraethu

## Rhagor o Wybodaeth a Chanllawiau

Awgrymodd llawer o ymatebwyr, gan gynnwys y rhai a oedd yn teimlo bod y cynigion yn aneglur, y byddai'n werthfawr cynnwys rhagor o wybodaeth yn y cynigion neu mewn canllawiau ategol. O'r safbwyntiau hyn, byddai rhagor o wybodaeth a chanllawiau yn werthfawr i helpu ymarferwyr, lleoliadau ac ysgolion i ddychmygu sut beth fydd y cynigion a gweithredu arnynt:

> *Mae'r disgwyliadau'n eglur, ond nid yw'n eglur o gwbl sut y maent am gael eu cyflawni.*

Pennaeth, Ysgol Gynradd

Roedd rhai'n teimlo y byddai'n ddefnyddiol cael eglurhad ar y prif ddisgwyliadau statudol a osodir ar leoliadau ac ysgolion. Byddai hyn yn galluogi i leoliadau ac ysgolion farnu'n gywir beth yw'r cyfrifoldeb cyffredinol am drefniadau asesu oddi mewn i drefniadau llywodraethu:

> *Mae'r disgwyliadau o ran trefniadau asesu yn eglur* [...]. *Mae'r ffocws ar y dysgwr fel unigolyn hefyd wedi'i sefydlu'n eglur, ac felly hefyd y ffaith bod angen gweithredu mewn ffordd gyfannol, ac mae yno ddisgwyliadau eglur o ran adolygu a diwygio. Fodd bynnag, mae hefyd angen cynnwys y manylion ychwanegol canlynol: mae angen eglurder ar ddisgwyliadau o ran rôl llywodraethwyr wrth gyflawni'u dyletswyddau mewn perthynas â'r trefniadau asesu, yn arbennig gan mai'r corff llywodraethu yw'r cyflogwr mewn ysgol Gatholig.*

Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig

*Yn gyffredinol, mae'r ymgynghoriad yn eglur o ran ystyr a geiriad, er bod ychydig feysydd lle mae angen rhagor o eglurder* […]. *Mae angen i'r canllawiau fod yn fwy eglur ynglŷn â phwy fydd yn gyfrifol am drefniadau asesu mewn lleoliad a ariennir nas cynhelir. Nid yw'r term 'darparwr' yn ddigon penodol ac yn gadael diffyg eglurder ynglŷn â phwy sydd â chyfrifoldeb am y trefniadau asesu. Er enghraifft, mewn lleoliad sydd mewn perchnogaeth breifat, a yw'r cyfrifoldeb hwn yn perthyn i'r perchennog, y person cyfrifol neu arweinydd y lleoliad?*

Estyn

Ar y llaw arall, roedd rhai'n teimlo y gallai rhagor o wybodaeth gael ei darparu am y ffyrdd y gallai lleoliadau ac ysgolion fynd i'r afael â threfniadau asesu. O'r safbwyntiau hyn, ystyriwyd bod y cynigion yn esbonio ar lefel uchel sut beth fyddai'r trefniadau asesu yn ymarferol. Roedd rhai'n teimlo y byddai'n werthfawr gael rhagor o fanylion ynglŷn â'r ffyrdd y gallai trefniadau asesu gael eu hymgorffori mewn dysgu ac addysgu. Byddai hyn o gymorth i ddatblygu cwricwlwm a threfniadau asesu effeithiol sy'n cydymffurfio â'r disgwyliadau a osodir ar leoliadau ac ysgolion:

*Mae rhai elfennau'n eglur; fodd bynnag, mae'n anodd cael dealltwriaeth lawn heb fod â'r cod cynnydd gorfodol terfynol i gyfeirio ato. Er enghraifft, mae 4.6 yn cyfeirio at sicrhau bod dysgwyr yn gwneud 'cynnydd priodol', ond ni chaiff hyn ei ddiffinio'n glir yn y ddogfen. Pwy sy'n penderfynu beth yw 'cynnydd priodol' i ddysgwr? Beth sydd angen iddynt ei ystyried wrth benderfynu beth yw 'cynnydd priodol'? Sut y caiff ei sicrhau bod tegwch ar draws y system, fel nad yw dysgwyr y bernir eu bod yn gwneud 'cynnydd priodol' mewn un lleoliad o dan anfantais o gymharu â lleoliad arall lle y cytunwyd ar ddealltwriaeth wahanol o beth sy'n briodol?*

Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd

*Credwn fod y disgwyliadau* [mewn perthynas â lleoliadau nas cynhelir] *wedi'u diffinio yn y ddogfen ymgynghori; fodd bynnag, mae dal angen i fanylion hyn gael eu datblygu ochr yn ochr â chwricwlwm lleoliadau nas cynhelir. Unwaith y bydd y rhain wedi'u cyhoeddi, bydd gennym syniad mwy eglur unwaith eto o ran eglurder a disgwyliadau ac effaith ar y sector.*

PACEY Cymru, Corff Cynrychioliadol

Roedd rhai hefyd yn awgrymu defnyddio esiamplau i ddisgrifio sut beth fyddai trefniadau asesu yn ymarferol, ac er mwyn ysgogi trafodaeth a syniadau ymysg cydweithwyr. Byddai esiamplau o arferion da yn rhoi cyfleoedd i ymarferwyr ddychmygu'n weledol sut y gallai trefniadau asesu weithio'n ymarferol ac adeiladu ar ddulliau sydd wedi'u profi. O'r safbwyntiau hyn, gallai esiamplau helpu ysgolion a lleoliadau, yn enwedig y rhai sy'n llai cyfarwydd â'r Cwricwlwm i Gymru yn fwy cyffredinol. Ystyriwyd hefyd y gallai rhagor o ganllawiau ac esiamplau leihau llwyth gwaith, ac arwain at ymarfer mwy effeithiol:

*Mae'r dyletswyddau a'r disgwyliadau wedi newid yn helaeth iawn o gymharu â'r trefniadau presennol, ac mae'r holl gyfrifoldeb ar yr ysgol i ddylunio system newydd heb fod unrhyw enghreifftiau clir eisoes yn eu lle. Mae hyn yn rhoi pwyslais mawr ar ysgolion fel sefydliadau dysgu i uwchsgilio staff a chaniatáu iddynt oll fod yn rhan o sicrhau cynnydd i ddysgwyr heb fod camau yn eu lle ar gyfer cynnydd. Nid oes yno rywbeth y gall ysgolion gyfeirio ato, wrth iddynt geisio cymryd dogfen ymgynghori enfawr a chreu eu cwricwlwm eu hunain gyda chynnydd ac asesu yn rhan ohono. Mae'n waith brawychus, yn enwedig gan fod athrawon yn brysur yn cynllunio ac addysgu bob dydd.*

Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd

## Pennu Cynnydd

Oddi mewn i'r thema hon, maes yr ystyriwyd y byddai'n werthfawr cael rhagor o fanylion amdano oedd sut gallai lleoliadau ac ysgolion bennu cynnydd yn ymarferol. Roedd rhywfaint o ansicrwydd yn y cynigion hyn ynglŷn â sut y dylai cynnydd cael ei ddeall a'i fesur:

[Nid oes] *unrhyw synnwyr go iawn o sut gall ysgolion asesu cynnydd yn erbyn y camau cynnydd presennol, o ystyried y camau i ffwrdd oddi wrth lefelau a'r cyfarwyddyd penodol i beidio â defnyddio'r disgrifiadau hyn ar gyfer lefelu.*

Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd

*Rydym yn croesawu'r arfer o asesu cynnydd a chontinwwm. Mae plant yn gwneud cynnydd ar gyflymder gwahanol ac ni allant oll gyflawni'r un canlyniadau yr un pryd. Yr hyn sy'n aneglur yw'r negeseuon cymysg sydd yno i ddadelfennu'r camau cynnydd a datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig ar gyfer grwpiau blwyddyn unigol ac ysgrifennu hynny yn iaith y plentyn. Os mai dyma sy'n ofynnol, pam ein bod ni i gyd yn ei wneud yn unigol?*

Pennaeth, Ysgol Gynradd

## Asesu Ffurfiannol a Chrynodol

Maes arall lle yr ystyriwyd y byddai rhagor o fanylion yn werthfawr oedd rôl a natur asesu ffurfiannol a chrynodol. Roedd amrywiaeth eang o safbwyntiau oddi mewn i'r thema hon. Yn nehongliad rhai ymatebwyr o'r cynigion, er enghraifft, roedd anghydbwysedd rhwng asesu ffurfiannol a chrynodol. Teimlodd yr ymatebwyr hyn na fyddai'r cynigion a fyddai'n gweithredu rhai gofynion cenedlaethol o anghenraid yn arwain at ddefnyddio mwy o asesu ffurfiannol mewn dysgu ac addysgu. Teimlwyd bod pwyslais o'r fath ar asesu ffurfiannol yn bwysig er mwyn adlewyrchu gogwydd ac amcanion ehangach y Cwricwlwm i Gymru:

*Mae'r ddogfen gyfan rywfaint yn aneglur o ran disgwyliadau. Mae hyn oherwydd y tensiwn rhwng ffafrio, mewn statud, ymreolaeth leol yn hytrach na gorfodi dulliau gweithredu penodol. Mae iaith y ddogfen wedi'i nodweddu'n helaeth gan gysyniadau gorchymyn, gorfodi a rhagnodi* […]. *Nid yw hyn yn cyd-fynd ag ysbryd* [y Cwricwlwm i Gymru] […]. *Mae hyn yn groes i'r cysyniad o asesu dydd i ddydd wedi'i ymwreiddio yn y dysgu, a fyddai'n gwyro'n helaeth tuag at* [asesu] *ffurfiannol.*

Pennaeth, Ysgol Uwchradd

Ar y llaw arall, roedd rhai'n teimlo nad oedd y cynigion yn ddigon penodol wrth gyfleu rôl asesu crynodol yn y trefniadau asesu. O'r safbwyntiau hyn, gallai manylion pellach ynghylch sut y dylai asesu crynodol weithio gael eu hegluro a'u cryfhau yn y cynigion:

*Nid yw rôl asesu crynodol yn cael ei ddisgrifio unrhyw le yn y ddogfen, ond bydd yn amlwg yn flaenllaw yng Nghyfnod Allweddol 4 wrth i'r dysgwyr hynny baratoi i sefyll arholiadau allanol. Oni bai bod y cymwysterau a gynigir yn eglur a bod y prosesau asesu perthnasol wedi'u diffinio, ymdrin â rhan bwysig o'r asesu a wna'r set hon o gynigion, ac nid y cyfan. Nid yw'r ddogfen hon, felly, yn disgrifio trefniadau asesu.*

Undeb Athrawon

## Amrywiadau mewn Trefniadau Asesu

Un o oblygiadau allweddol y cynigion ynghylch trefniadau asesu oedd y ddealltwriaeth y byddai mwy o ymreolaeth a sybsidiaredd yn arwain at fwy o amrywiadau yn ymarferol. Awgrymodd hyn fod rhai ymatebwyr yn mynd y tu hwnt i'r cynigion eu hunain i ystyried yr effeithiau posibl. Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y byddai amrywiadau sylweddol yn lleol yn creu heriau pellach, gan gynnwys o ran cydweddu'n gydlynol ag ysgolion a lleoliadau eraill, cynorthwyo trosglwyddiadau yn effeithiol, a sicrhau ansawdd a thegwch mewn dysgu ac addysgu:

*Mae'r ymgynghoriad yn nodi y caiff graddau'r amrywio eu lliniaru gan y cod cynnydd gorfodol a'r canllawiau statudol. Mae'r cod a'r canllawiau'n eang iawn a goddrychol ac yn agored i'w dehongli, sydd am arwain at amrywiadau. Gan y bydd ysgolion unigol yn pennu trefniadau asesu, bydd amrywiadau sylweddol a bydd* [hyn] *yn ei gwneud yn anodd cymharu cyraeddiadau dysgwyr mewn gwahanol leoliadau.*

Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd

> *Nid yw'n eglur inni sut bydd y trefniadau asesu'n sicrhau tegwch a chydraddoldeb. Mae'r trefniadau asesu'n awgrymu pwysigrwydd asesu parhaus er mwyn cynorthwyo'r dysgu ac addysgu. Nid yw'r trefniadau'n disgrifio'n eglur sut bydd cydraddoldeb a thegwch yn cael eu sicrhau, hynny yw, bod plant a phobl ifanc sydd â gwahanol nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, a'r rhai o ardaloedd difreintiedig* [yn economaidd-gymdeithasol]*, yn cael eu hasesu mewn ffordd deg a chydradd.*

Corff Rheoleiddio

## 2.2 Cefnogi Cynnydd Dysgwyr

Mae cefnogi cynnydd dysgwyr yn un o amcanion allweddol y Cwricwlwm i Gymru. Oddi mewn i'r cynigion, mae'r trefniadau asesu'n cael eu hystyried yn rhan greiddiol o ddyluniad y cwricwlwm ac yn rhan annatod o ddysgu ac addysgu. Mae'r cynigion yn deall y dylai asesu gyfrannu at ddatblygu darlun cyfannol o'r dysgwr. Mae hyn yn cynnwys eu cryfderau, y ffyrdd y maent yn dysgu, a'u meysydd i'w datblygu, er mwyn llywio'r camau nesaf mewn dysgu ac addysgu.

### 2.2.1 Safbwyntiau Dysgwyr

Fel rhan o'r ymgynghoriad, gwahoddwyd dysgwyr i roi eu barn am adborth ac asesu. Cynhaliwyd tri gweithdy gyda dysgwyr o flynyddoedd 6 ac 8 mewn dwy ysgol.

Ar draws pob grŵp, siaradodd y dysgwyr yn huawdl am bwysigrwydd adborth amserol, penodol ac unigol i gynorthwyo eu cynnydd. Roeddent yn siarad am y gwahanol ffyrdd y caiff adborth ei gyflwyno iddynt, gan gynnwys drwy sylwadau ysgrifenedig ac mewn sgyrsiau gyda chyfoedion neu athrawon. Cyfeiriodd y dysgwyr at enghreifftiau o adborth a fu'n ddefnyddiol iddynt. Thema a gododd dro ar ôl tro oedd pwysigrwydd adborth manwl, personol a sgyrsiol:

> *Rwy'n hoffi* [adborth] *un i un gyda fy athrawes oherwydd fe all hi ddweud wrthyf i beth sy'n dda a beth sydd angen ei wella.*

Dysgwr, Sesiwn Gweithdy

> *Rwy'n hoffi pan mae fy athro yn rhoi adborth wyneb yn wyneb oherwydd wedyn mi allaf i ofyn cwestiynau — os mai sylw yn y llyfr ydy o, weithiau maen nhw'n dweud 'da iawn' yn unig a dydw i ddim yn gwybod beth sydd angen i mi wneud i wella.*


Dysgwr, Sesiwn Gweithdy

Yn ogystal ag adborth personol, siaradodd y dysgwyr hefyd am bwysigrwydd gwahanol fathau o adborth er mwyn cefnogi cynnydd. Yn achos gwaith ysgrifenedig, er enghraifft, dywedodd rhai eu bod o'r farn bod sylwadau ysgrifenedig yn ddefnyddiol i nodi unrhyw gamgymeriadau. At hynny, roeddent o'r farn bod y cyfle i drafod adborth gydag athrawon yn werthfawr, gan gynnwys beth y gallant wneud i wella. Yn ogystal ag adborth penodol wedi'i deilwra, cyfeiriodd llawer o ddysgwyr hefyd at bwysigrwydd gwybod beth roeddent wedi'i wneud yn dda yn gymaint â gwybod sut y gallant wella. Roedd hyn yn cynnwys negeseuon a oedd yn amlygu ac yn atgyfnerthu'r cynnydd y mae'r dysgwyr yn eu wneud.

Gyda'i gilydd, mae'n ymddangos bod safbwyntiau'r dysgwyr yn cefnogi cyfeiriad cyffredinol y cynigion, gan gynnwys y pwyslais a roddir ar ymgorffori asesu ffurfiannol, unigol a pharhaus mewn dysgu ac addysgu. Roedd y dysgwyr yn aml yn disgrifio achosion o adborth a fu'n ddefnyddiol iddynt i gefnogi'u cynnydd a oedd yn cyd-fynd â'r dull sydd wedi'i amlinellu yn y Cwricwlwm i Gymru.

### 2.2.2 Canfyddiadau Cyffredinol

Yn fwy cyffredinol, gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ffurfiol a oeddent yn teimlo y byddai'r dyletswyddau a'r disgwyliadau ynghylch trefniadau asesu yn cefnogi cynnydd dysgwyr yn effeithiol.[2] Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn rhanedig o ran y graddau y byddai'r trefniadau asesu arfaethedig yn cefnogi cynnydd dysgwyr yn effeithiol. Roedd y rhai a gynigiodd gefnogaeth amodol neu ganfyddiadau mwy negyddol yn tueddu i ddweud y gallai'r amrywiadau posibl yn y dulliau gweithredu achosi heriau i gefnogi cynnydd dysgwyr:




C4: N=72

[2] Cwestiwn 5: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y bydd y dyletswyddau a'r disgwyliadau a osodir ar leoliadau ac ysgolion yn cefnogi cynnydd dysgwyr yn effeithiol yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru?

### 2.2.3 Themâu Allweddol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn ymhelaethu ar eu barn ynglŷn â'r graddau y byddai trefniadau asesu yn cefnogi cynnydd dysgwyr.

#### Dull Gweithredu Effeithiol

Roedd y rhai a oedd yn fwy cadarnhaol ynglŷn â'r cynigion yn tueddu i awgrymu eu bod hefyd yn cefnogi'r dulliau asesu sydd wedi'u hamlinellu yn y Cwricwlwm i Gymru. O'r safbwyntiau hyn, roedd cynyddu'r pwyslais ar ddysgwyr unigol ac ar anghenion dysgwyr unigol, ymysg egwyddorion eraill, yn cael ei groesawu gan rai ymatebwyr:

> *Bydd modd i ni ddatblygu systemau sy'n diwallu anghenion ein dysgwyr, yn hytrach na'n bod yn gorfod cynnal rhai asesiadau sydd naill ai'n ddiangen neu na fydd yn dweud wrthym yr hyn sydd angen i ni wybod er mwyn blaengynllunio ac asesu.*

Pennaeth, Ysgol Gynradd

> *Mae dylunio'r trefniadau asesu yr un pryd â dylunio'r cwricwlwm yn hanfodol a dylid cyfathrebu hynny'n eglur; fodd bynnag, mae hyn yn anodd ar lefel uwchradd hyd nes bod asesu ar ddiwedd CA4 yn eglur a diamwys. Mae asesu'n barhaus ble mae'r dysgwyr arni o ran eu dysgu er mwyn llywio'r addysgu, yn hytrach na lefelau ar bwynt penodol o amser, i'w groesawu'n fawr. At hynny, mae symud tuag at yr arfer o ymarferwyr yn defnyddio amrywiaeth ehangach o ddulliau asesu i farnu a oes cynnydd yn cael ei wneud hefyd i'w groesawu, ac felly hefyd y neges na ddylai ysgolion ddadelfennu disgrifiadau dysgu i 'restrau ticio'. Rydym hefyd yn croesawu'r neges glir nad oes unrhyw beth i ddisodli asesu'r dysgu yn rhagorol o ddydd i ddydd, a gwneud hynny ar gyfer dysgu, er mwyn llywio'r addysgu a chynllunio at gynnydd i bob dysgwr.*

Consortiwm Rhanbarthol

> *Croesawn gamau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod asesu'n canolbwyntio ar gefnogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd effeithiol. Mae'r ymgynghoriad yn nodi bod trefniadau asesu wedi'u disgrifio 'ar wyneb Deddf 2021 fel trefniadau ar gyfer asesu cynnydd dysgwyr unigol yn erbyn cwricwlwm perthnasol, y camau nesaf yn eu cynnydd, a'r addysgu a dysgu sydd eu hangen i symud ymlaen i'r cam nesaf'. Bydd y neges glir hon ynglŷn â diben asesu o dan y Cwricwlwm i Gymru yn helpu i roi cyfeiriad clir i ysgolion a lleoliadau wrth benderfynu ar drefniadau asesu.*

Estyn

#### Amrywiadau ar draws Lleoliadau ac Ysgolion

Roedd y rhai a oedd yn cynnig dehongliadau mwy gofalus o'r cynigion yn tueddu i gyfeirio at yr amrywiadau posibl rhwng lleoliadau ac ysgolion. O'r safbwyntiau hyn, roedd yr ymatebwyr yn pryderu y gallai'r ffocws ar sybsidiaredd a hyblygrwydd yn y cynigion arwain at amrywiadau sylweddol yn y dulliau asesu oddi mewn i leoliadau ac ysgolion a rhyngddynt. Gallai fod i hyn

oblygiadau anfwriadol, gan gynnwys wrth nodi a hyrwyddo dulliau addysgu effeithiol ac wrth farnu a yw dysgwyr yn gwneud cynnydd ar gyflymder priodol o gymharu â'u cyfoedion. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr hefyd at rôl asesu er mwyn sicrhau effeithiolrwydd dysgu ac addysgu oddi mewn i leoliadau ac ysgolion a rhyngddynt:

> *Credaf y bydd cynnydd dysgwyr yn amrywio o ysgol i ysgol yn sgil diffyg canllawiau cenedlaethol eglur a chyson. Ni ddylai ysgolion ffurfio barn benodol am gynnydd dysgwr drwy asesiadau crynodol ar amser penodol. Sut felly rydym am wybod a yw plant yn gwneud cynnydd ar gyflymder priodol o gymharu â'u cyfoedion ledled y wlad ac yn fwy cyffredinol ledled y byd? Pan fydd y plant yma'n sefyll prawf, sydd am ddigwydd ar ryw adeg yn eu bywyd (ond yn llawer hwyrach nag o'r blaen), sut maen nhw am wneud yn y fath sefyllfa estron?*

Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd

> *Y mae'n eglur mai ysgolion a phenaethiaid sydd i benderfynu ar drefniadau asesu, ond nid yw'n eglur sut mae sicrhau cysondeb ar draws ysgolion ac o'r cynradd i'r uwchradd.*

Athro, Ysgol Uwchradd

## 2.3 Trefniadau Asesu yn Ymarferol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a oedd unrhyw ystyriaethau ymarferol ynghylch y trefniadau asesu.[3]

### 2.3.1 Themâu Allweddol

#### Llwyth Gwaith

Wrth weithredu ar y cynigion, pryder allweddol a fynegwyd gan lawer o ymatebwyr oedd goblygiadau'r cynigion i lwyth gwaith. Teimlwyd y byddai rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith yn fenter sylweddol a fyddai'n galw am amser a meddwl. Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai ar ysgolion angen amser ac adnoddau sylweddol er mwyn mynd ati i ddatblygu a gweithredu'r cwricwlwm a threfniadau asesu, gan gynnwys yr amser i uwchsgilio staff a chydweithio i sicrhau cysondeb oddi mewn i leoliadau ac ysgolion a rhyngddynt. Yn y tymor byrrach, mynegwyd bod gweithredu'r hen gwricwlwm a'r cwricwlwm newydd yr un pryd hefyd yn bryder o ran y llwyth gwaith:

> *Mae hyn yn fenter enfawr i ysgolion ac yn dasg frawychus i lawer sy'n ymwneud â hi. Bydd modd cyflawni hyn wrth feddwl ar draws clwstwr cyfan a chyda chymorth rhwng ysgolion, ond mae am gymryd amser.*

Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd

[3] Cwestiwn 6: Wrth ymateb i'r dyletswyddau a'r disgwyliadau o ran asesu, a oes unrhyw ystyriaethau ymarferol neu heriau y dylai'r cynigion eu hadlewyrchu yn eich barn chi?

> [Mae yno'r] *amser i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru, gan gynnwys asesu. Naw mis ysgol sydd hyd nes iddo gael ei roi ar waith, ynghanol pandemig byd-eang* [a chyda] *lefelau absenoldeb uchel ymysg staff, ac mae angen amser arnom i feddwl. Nid oes gennym hyn ar hyn o bryd – mae hyn yn bryder mawr.*
>
> Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd

Cyfeiriwyd at y mater hwn mewn trafodaethau agored ag ymarferwyr ac uwch arweinwyr mewn gweithdai. Roedd rhai'n teimlo bod maint y newid mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru yn fwy cyffredinol yn sylweddol, a heb neilltuo digon o amser a sylw, roedd perygl y byddai ansawdd a chydlyniad y dysgu a'r addysgu yn dioddef. Ar y llaw arall, mynegodd eraill, heb amser a meddwl digonol, y gallai rhai lleoliadau ac ysgolion droi at strategaethau a threfniadau asesu nad ydynt yn cyd-fynd ag ysbryd y cynigion:

> *Mae yno bryder y bydd rhai ysgolion yn troi at feini prawf 'ticio'r blwch' er mwyn pennu cynnydd, yn enwedig gan fod rhai cwmnïau allanol yn annog ysgolion i brynu pecynnau asesu sy'n ffafrio'r defnydd o 'restrau ticio'.*
>
> Consortiwm Rhanbarthol

## Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Teimlodd rhai y byddai hyfforddiant mwy cyffredinol yn bwysig er mwyn cynorthwyo ymarferwyr i ymwneud â'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd. O'r safbwyntiau hyn, byddai hyder, bod yn gyfarwydd â'r cwricwlwm newydd, a strategaethau ymarferol ynghylch asesu wrth ddysgu, yn ganolog i effeithiolrwydd y diwygiadau:

> *Rhaid cydnabod y bydd y strategaethau yma'n galw am ddysgu proffesiynol sylweddol a chymorth i ysgolion ac ymarferwyr i sicrhau bod addysgu a threfniadau asesu o ansawdd uchel wedi'u hymwreiddio ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol.*
>
> Estyn

> *Bydd hyfforddiant, canllawiau a datblygiad* [yn bwysig] *i'r rhai sy'n gweithio yn y sector nas cynhelir a'r rhai sy'n gweithio yn y sector gofal plant yn fwy cyffredinol mewn perthynas â threfniadau asesu* […]. [Byddai hyn yn] *cynorthwyo i wella ansawdd, gwella canlyniadau i blant, a pharhad o ran dulliau gweithredu. Byddai angen cynnal hyfforddiant ar amser ac mewn lleoliad hygyrch – gall hyfforddiant rhithwir fod yn fwy hygyrch.*
>
> PACEY Cymru

## Cyfathrebu Cynnydd a Darparu Tystiolaeth

Mynegodd rhai ymatebwyr y pryder y byddai rhieni, gofalwyr a rhanddeiliaid eraill eisiau awgrymiadau clir, mesuradwy o gynnydd dysgwyr. O’r safbwyntiau hyn, gallai natur asesu yn y cynigion arwain at heriau o ran cyfathrebu cynnydd a darparu tystiolaeth ohono, gan gynnwys o ran pa gynnydd mae dysgwyr yn ei wneud o gymharu â’u cyfoedion:

> *Bydd rhanddeiliaid eisiau gwybod ble maen nhw’n awr, ond, yn y pen draw, byddant eisiau gwybod ai dyma ble mae disgwyl i’r dysgwr fod ar hyn o bryd. Byddant hefyd eisiau gwybod a ydynt wedi gwneud cynnydd cryf dros flwyddyn/tymor ac ati. Ond fy nghwestiwn i fyddai “sut mae dangos y cynnydd hwnnw” mewn ffordd ystyrlon ar gyfer y rhiant pan maent yn gofyn “Sut ydych chi’n gwybod eu bod wedi gwneud cynnydd cryf/gwan?”. Mae angen i ni fod yn ofalus na fydd gennym system asesu a fydd yn creu atebion ‘niwlog’ mewn perthynas â’r cynnydd a wnaed.*

Uwch Arweinydd, Ysgol Arbennig

Roedd hyn hefyd yn gysylltiedig â phryderon ehangach ynghylch atebolrwydd a faint o ddata, ac ar ba lefel, y byddai angen i leoliadau ac ysgolion ei ddarparu at ddiben arolygu a sicrwydd:

> *Bydd y rhanddeiliaid eisiau gwybod ble maent arni ar hyn o bryd, ond, yn y pen draw, byddant eisiau gwybod pa ddata y bydd* [Llywodraeth Cymru] *ac Estyn yn gofyn amdano. A yw hyn yn gysylltiedig â’r cod cynnydd neu a fydd yn deillio o brofion cenedlaethol? Mae’r agwedd hon yn bwysig iawn am ei bod yn gyrru popeth, er nad ydw i’n credu y dylai.*

Pennaeth, Ysgol Gynradd

## Cydweithio

Amlygwyd bod gallu cydweithio ar draws clystyrau ysgolion a lleoliadau addysgol, a rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, yn bryder allweddol o ran sicrhau cynnydd effeithiol i ddisgyblion. Teimlodd yr ymatebwyr y byddai cydweithio yn ffactor pwysig er mwyn datblygu dulliau asesu a sicrhau arferion gorau. At hynny, teimlwyd y byddai perthynas gydweithio â’r amryw gyrff statudol yn ffactor pwysig er mwyn darparu’r cymorth sydd ei angen ar ysgolion:

> *Yn ymarferol, rwy’n gobeithio bod yno’r cyfle mwyaf posibl i rannu dulliau o gyflawni a chyfathrebu’r dyletswyddau hyn. Rwy’n pryderu y gallai unrhyw ‘seilo’ o awdurdod lleol, grŵp o ysgolion neu fath o ddarpariaeth addysg ddod o hyd i ddull sy’n cydweddu’n ‘ddigon agos’. Efallai y bydd yno syniad gwell sydd heb ei ddefnyddio’n ddigonol, neu sbardun i arloesi y tu hwnt i gyswllt uniongyrchol y darparwr, ac mae amser yn adnodd sy’n brin i bob gweithiwr proffesiynol.*

Rhiant neu Ofalwr

## 2.4 Asesiadau Dechreuol

Mae’r ddeddfwriaeth arfaethedig hefyd yn cyflwyno’r disgwyliadau a osodir ar leoliadau ac ysgolion i gynnal asesiadau dechreuol mewn perthynas ag addysg dysgwyr.

**Crynodeb o’r Cynigion**

Bwriad yr asesiad ar adeg dechrau yn yr ysgol yw dod i ddeall anghenion dysgwr. Ei ddiben yw bod yn gam cyntaf tuag at ddod i ddeall dysgwr wrth ystyried ei gryfderau, ei feysydd i’w gwella a lle mae angen mwy o ffocws neu gymorth. Wedi hynny, gall y wybodaeth hon gael ei defnyddio i deilwra addysg a dysgu er mwyn sicrhau a chefnogi cynnydd i’r dysgwr hwnnw.

Gofynnwyd i’r ymatebwyr wedyn a oeddent yn teimlo bod y cynigion ynghylch asesiadau dechreuol yn briodol a realistig.[4]

### 2.4.1 Themâu Allweddol

#### Priodol a Realistig

Mynegodd y rhan fwyaf o ymatebwyr deimladau cadarnhaol ynglŷn â’r cynigion. Roedd y rhain yn cynnwys y consensws cyffredinol bod asesiadau dechreuol yn ffordd briodol i ddechrau deall a chefnogi cynnydd dysgwr unigol. Roedd hyn hefyd yn cael ei ystyried yn ddisgwyliad cyffredinol realistig o ran rhoi dull gweithredu o’r fath ar waith:

> *Dylai asesiad sylfaenol nid yn unig gael ei wneud wrth gychwyn mewn addysg oedran ysgol orfodol, fel sy’n wir yn awr, ond dylai hefyd sicrhau y gall ymarferydd asesu ble mae plentyn arni o ran y continwwm 3-16 ar unrhyw bwynt wrth gychwyn ar ysgol neu leoliad. Credwn y bydd hyn yn dwyn parch a chydnabyddiaeth mawr eu hangen i’r sector nas cynhelir. Bydd yn rhaid sicrhau bod yr ysgol yn cydnabod y gwaith a wneir gan y sector nas cynhelir cyn oedran ysgol ac yn rhoi gwerth i hyn.*

PACEY Cymru

> *Ydy, a bu ysgolion da yn gwneud hyn ers blynyddoedd lawer. Mae Incerts yn caniatáu i ni osod asesiadau ‘dechreuol’ wrth i bob plentyn gychwyn yn y dosbarth meithrin, felly mae’r cynnydd maen nhw’n ei wneud yn y blynyddoedd cynnar yn cael ei olrhain o’r diwrnod maen nhw’n cychwyn yn yr ysgol.*

Pennaeth, Ysgol Gynradd

[4] Cwestiwn 7: A yw’r ddyletswydd a osodir ar leoliadau ac ysgolion i gynnal asesiad dechreuol yn briodol ac yn realistig?

*Mae'n briodol ac mae ysgolion eisoes yn ei wneud. Y pryder yw y bydd ei wneud yn rhy rhagnodol yn golygu ei fod yn afrealistig o fiwrocrataidd.*

Llywodraethwr, Corff Llywodraethu

*Credwn ei fod yn briodol a realistig gofyn i ysgolion a lleoliadau gynnal asesiad dechreuol. Rydym wedi nodi ychydig o feysydd sydd angen eglurhad* […]*. Dylai ysgolion allu derbyn asesiad wedi'i gynnal gan leoliad neu ysgol arall pan mae'n unol â gweithdrefnau asesu'r ysgol ei hun, e.e. os yw dysgwyr yn y lleoliad fel arfer yn trosglwyddo ymlaen i'r ysgol.*

Estyn

Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cynnig sylwadau mwy cadarnhaol hefyd yn tueddu i feddwl bod y dull gweithredu'n effeithiol, ac yn darparu llinell sylfaen ddefnyddiol er mwyn teilwra cymorth a sicrhau cynnydd yn ei herbyn:

*Mae llawer o ysgolion wedi cynnal asesiadau dechreuol ers peth amser bellach ac* [maen nhw'n] *ddefnyddiol i nodi sgiliau a galluoedd dysgwyr a meysydd i'w datblygu. Maen nhw'n llinell sylfaen ddefnyddiol ar gyfer olrhain cynnydd. Mae perygl y bydd hyn yn troi i fod yn ddim byd ond prawf y mae gofyn i unrhyw newydd ddyfodiad ei sefyll, yn hytrach nag arsylwi'n ystyrlon a defnyddio barn ac arbenigedd proffesiynol.*

Swyddog Gwella Ysgolion, Awdurdod Lleol

## Ystyriaethau Ymarferol

Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at amryw ystyriaethau ymarferol, gan gynnwys ailadrodd materion yr oeddent yn teimlo sy'n bwysig wrth ystyried trefniadau asesu yn fwy cyffredinol. Roedd y rhain yn cynnwys cyfyngiadau capasiti a llwyth gwaith, yn arbennig o ran canfod yr amser i gydweithio rhwng lleoliadau ac ysgolion, datblygu dull gweithredu cyffredin mewn perthynas ag asesu, a chynnal asesiadau dechreuol. Roedd yr ysgolion hynny sy'n denu nifer fawr o ddysgwyr o ddalgylch sy'n cynnwys nifer sylweddol o ysgolion bwydo yn teimlo bod hyn yn her sylweddol:

*I ysgolion newydd neu ysgolion sy'n tyfu, gallai asesiadau dechreuol fod yn anghynaladwy gan dynnu oddi wrth ddysgu ac addysgu dydd i ddydd. Credaf hefyd y dylai asesiadau dechreuol i ddisgyblion sy'n cychwyn ar eu haddysg fod yn safonol yn gyffredinol i sicrhau cysondeb o ran man cychwyn (yn yr un ffordd ag y dylai cymwysterau 16 oed fod yn safonol).*

Pennaeth, Ysgol Gynradd

## Safoni

Gan ymateb i fater amrywiadau mewn dulliau gweithredu, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai safon genedlaethol gyffredin, o bosibl â dogfennau asesu a chynnydd cyffredin, yn sail i ddull gweithredu mwy cyson a di-dor i gefnogi trosglwyddiadau:

> *Mae asesiadau dechreuol yn synhwyrol a phriodol, ond mae angen iddynt gael eu dylunio'n ganolog fel bod y mesur yn deg ar draws pob ysgol.*

Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd

## Trosglwyddiadau Effeithiol

Yn gysylltiedig â thema cysondeb, roedd pryder hefyd y gallai plant sy'n symud rhwng lleoliadau ac ysgolion wynebu anhawster wrth addasu i gwricwlwm newydd a allai fod yn sylweddol wahanol i'r hyn roddent yn ei astudio'n flaenorol. Roedd sicrhau trosglwyddiadau effeithiol yn bryder i rai, o ran y cyfnod y bydd ysgolion yn symud i'r trefniadau newydd ac o ran symud disgyblion o un ysgol i'r llall o dan y system newydd:

> *Hyd nes bod arholiadau TGAU yn newid yn unol â'r cwricwlwm, bydd yn rhaid i asesiadau a chwricwla ysgolion barhau i baratoi disgyblion ar gyfer y rhain. O'r herwydd, bydd yn rhaid i asesiadau barhau i adlewyrchu'r arholiadau TGAU ar lefel uwchradd. Bydd hefyd angen i asesiadau cynradd fod yn unol ag asesiadau uwchradd i sicrhau bod data ar gyfer disgyblion blwyddyn 7 yn gywirach ac er mwyn hwyluso'r trosglwyddo.*

Athro, Ysgol Uwchradd

## Rhagor o Ganllawiau

Ar y llaw arall, cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y gwerth posibl sydd i ragor o fanylion a chanllawiau, gan gynnwys mwy o eglurder ynglŷn â sut beth ddylai asesiadau dechreuol fod. Teimlwyd bod hyn yn bwysig i sicrhau lefel o gysondeb, cynorthwyo ymarferwyr i fynd i'r afael ag asesiadau dechreuol, a mynd i'r afael ag unrhyw heriau neu ystyriaethau penodol:

> *Ydynt,* [mae'r cynigion yn briodol a realistig] *ond â chanllawiau clir o ran disgwyliadau. Mae'r ddogfen yn trafod gofynion ar lefel uchel – bydd y manylion yn caniatáu inni ffurfio barn go iawn.*

Pennaeth, Ysgol Uwchradd

*Yn gyffredinol, mae asesiad dechreuol yn briodol ac mae'n ddymunol er mwyn cael dealltwriaeth o ble mae'r dysgwr arni ar y continwwm 3-16. Fodd bynnag, bydd yn hanfodol cael eglurhad ar yr amryw wybodaeth sydd i'w throsglwyddo o'r ysgol flaenorol er mwyn cynorthwyo'r asesiad dechreuol. Mae angen canllawiau clir iawn ynglŷn â'r asesiad llesiant, gyda* [meini prawf] *penodol ar gyfer ffurfio'r farn hon. Nid yw penaethiaid yn arbenigwyr iechyd meddwl, a gallai ffurfio barn o'r math yma adael ysgolion yn agored i gael eu herio. Gallai'r gofyniad hwn fod yn afrealistig wrth i ddisgyblion drosglwyddo o systemau addysg gwahanol yn y Deyrnas Unedig neu'r tu allan i'r Deyrnas Unedig.*

Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig

# 3 Dealltwriaeth Gyffredin o Gynnydd

Mae agwedd arall ar y cynigion yn canolbwyntio ar ddisgwyliadau ynghylch datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd oddi mewn i leoliadau ac ysgolion a rhyngddynt.

**Crynodeb o'r Cynigion**

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn gosod cyfrifoldeb ar leoliadau ac ysgolion am ddylunio eu cwricwlwm eu hunain, gyda disgresiwn ynglŷn â thopigau a chynnwys dysgu. Mae felly'n bwysig sicrhau bod tegwch i ddysgwyr ledled Cymru yn yr addysg y maent yn ei chael, a sicrhau lefel o gysondeb i ddysgwyr o ran eu cynnydd.

I gynorthwyo hyn, mae'r cynigion yn cyflwyno'r disgwyliadau y bydd lleoliadau ac ysgolion yn hwyluso datblygiad dealltwriaeth gyffredin o gynnydd ac ymagwedd tuag at gynnydd. Mae'r rhain yn cynnwys y disgwyliadau ynglŷn â sut beth fydd cynnydd a pha mor gyflym y gall dysgwyr wneud cynnydd, ac y dylai hyn gael ei ystyried pan fydd lleoliad neu ysgol yn dylunio ac yn cyflwyno eu cwricwlwm unigol.

Mae'r cynigion yn ystyried y dylai'r ddealltwriaeth gyffredin hon o gynnydd gael ei datblygu drwy ddysgu proffesiynol ac fel proses barhaus o ddeialog broffesiynol. Caiff ei gydnabod y gall deialog broffesiynol roi cyfleoedd i arweinwyr ac ymarferwyr rannu a myfyrio ar effaith cwricwlwm eu lleoliad neu ysgol. Mae deialog broffesiynol hefyd yn cynnig cyfleoedd i rannu profiadau a'r hyn a ddysgir.


## 3.1 Eglurder y Cynigion

Gofynnwyd i'r ymatebwyr yn gyntaf a oeddent yn teimlo bod y cynigion ynglŷn â datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd yn eglur.[5]

### 3.1.1 Canfyddiadau Cyffredinol

Yn gyffredinol, roedd mwyafrif bach o ymatebwyr yn teimlo bod y cynigion yn eglur. Roedd y rhai a oedd yn teimlo bod y cynigion yn aneglur yn tueddu i bwysleisio ystyriaethau ehangach, gan gynnwys pwysigrwydd rhagor o wybodaeth a chanllawiau a allai fod o gymorth i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd:

[5] Cwestiwn 8: A yw'r disgwyliadau a osodir ar leoliadau ac ysgolion o ran datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd yn eglur?




### 3.1.2 Themâu Allweddol

Disgwyliadau Eglur

Dywedodd llawer o ymatebwyr fod y disgwyliadau ynglŷn â datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd wedi'u cyflwyno'n glir yn y cynigion:

> *Mae'r disgwyliadau'n eglur ond, unwaith eto, maen nhw'n rhoi baich enfawr a mwy o lwyth gwaith ar ysgolion ac uwch arweinwyr.*

Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd

Roedd y safbwyntiau hyn hefyd yn seiliedig ar fynegi'n benodol ac ymhlyg eu bod yn cytuno â'r dull gweithredu cyffredinol, gan gynnwys y ddealltwriaeth y byddai datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd yn fuddiol i gefnogi cynnydd dysgwyr. At hynny, amlygodd yr ymatebwyr bwysigrwydd dealltwriaeth gyffredin o gynnydd ar draws ysgolion a lleoliadau. O'r safbwyntiau hyn, roedd dull gweithredu cyffredin a chyson yn bwysig er mwyn sicrhau cydraddoldeb, lleihau anghydraddoldeb mewn addysg, a chefnogi trosglwyddiadau effeithiol:

> *Mae'r adran hon yn nodi'n glir mai'r disgwyliad yw y bydd penaethiaid yn mynd ati'n rhagweithiol i greu cysylltiadau â lleoliadau — mae hyn yn gadarnhaol iawn i leoliadau nas cynhelir. Caiff trefniadau asesu eu hadolygu'n gyson – sydd unwaith eto yn gam cadarnhaol. Bu bod yn rhy anhyblyg yn anhawster yn y gorffennol. Mae'n dda gwybod y gall gael ei ddiwygio os oes angen.*

Tîm Cynghori Addysg Gynnar a Ariennir

### Rhagor o Wybodaeth a Chanllawiau

Roedd yr ymatebwyr hefyd yn teimlo y byddai angen rhagor o fanylion er mwyn cynorthwyo ysgolion i ddeall a gweithredu ar y gofynion. Roedd hyn yn cynnwys rhai ymatebwyr a oedd yn teimlo bod angen eglurhad o sut y dylai ysgolion fynd ati'n ymarferol i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd:

> *Rydym yn cydnabod y camau cadarnhaol yn y canllawiau i sicrhau bod ysgolion yn datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd. Rydym wedi nodi ychydig bwyntiau sydd angen eu hegluro ymhellach* […]. *Mae'r ychydig baragraffau cyntaf yn yr adran ar 'ddealltwriaeth gyffredin o gynnydd' yn disgrifio'r trefniadau mewn ysgolion, ac mae'r paragraffau dilynol yn canolbwyntio ar drefniadau 'ar draws ysgolion'. Dylai'r canllawiau fod yn eglur ynghylch a oes disgwyl bod cysylltiadau, neu beidio, rhwng y cyfarfodydd a'r grwpiau yma.*

Estyn

Yn ogystal â sut y gallai ysgolion fynd ati'n ymarferol i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, dywedodd rhai ymatebwyr hefyd y gallai rhagor o wybodaeth gefnogi trafodaethau ar faterion o sylwedd. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ar sut y dylai cynnydd ei hun gael ei ymgorffori mewn dysgu ac addysgu. O'r safbwyntiau hyn, byddai canllawiau neu esiamplau o gymorth i ymarferwyr weld sut gallai trefniadau asesu gefnogi cynnydd a hwyluso'r gwaith o ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd oddi mewn i leoliadau ac ysgolion a rhyngddynt.


## 3.2 Cefnogi Dealltwriaeth gyffredin o gynnydd

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a fyddai'r cynigion yn effeithiol o ran cefnogi datblygiad dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.[6]

### 3.2.1 Canfyddiadau Cyffredinol

Yn yr ymateb, roedd mwyafrif bach yn anghytuno y byddai'r cynigion yn arwain at ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd. Roedd y rhai a oedd yn mynegi canfyddiadau mwy negyddol unwaith eto yn tueddu i gyfeirio at faterion ac ystyriaethau ehangach, gan gynnwys rhagor o wybodaeth a chanllawiau i'w cynorthwyo i ddehongli a deall cynnydd oddi mewn i'r Cwricwlwm i Gymru. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr hefyd at ystyriaethau ymarferol a heriau wrth roi'r cynigion ar waith. Caiff y materion ymarferol eu harchwilio yn yr adran nesaf.

[6] Cwestiwn 9: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y bydd y dyletswyddau a'r disgwyliadau a osodir ar leoliadau ac ysgolion yn helpu i ddatblygu a gweithredu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd yn effeithiol?




### 3.2.2 Themâu Allweddol

<u>Dull Gweithredu Effeithiol</u>

Roedd yr ymatebwyr yn gyffredinol yn cytuno â'r syniad y byddai'r dyletswyddau a'r disgwyliadau'n effeithiol o ran cefnogi datblygiad dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, ac roedd nifer o ymatebwyr yn ei ystyried yn gadarnhaol y bydd ysgolion yn arwain ar hyn. Roedd y safbwyntiau hyn yn aml yn seiliedig ar bwysigrwydd deialog broffesiynol a photensial hynny i hybu dulliau cydlynol ac effeithiol i ddeall a chefnogi cynnydd dysgwyr:

> *Bydd y pwyslais cryf ar ddeialog broffesiynol sy'n cynnwys pob* [aelod] *oddi mewn i ysgolion a rhyngddynt o gymorth effeithiol i ddatblygu a gweithredu dull cyffredin o ystyried cynnydd. Fel a nodwyd yn flaenorol, mae llawer o heriau ymarferol sydd angen eu hegluro yn ogystal â chanllawiau pellach ar y cyfyng-gyngor sy'n wynebu ysgolion o ran sut i gofnodi cynnydd yn gryno ac effeithiol, am mai 'dyfalu' gofynion atebolrwydd allanol a wnânt ar hyn o bryd.*

Consortiwm Rhanbarthol

## 3.3 Dealltwriaeth Gyffredin o Gynnydd yn Ymarferol

Wrth ystyried goblygiadau ymarferol y cynigion, gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn am unrhyw ystyriaethau neu heriau wrth ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.[7]

---

[7] Cwestiwn 10: Mewn ymateb i'r dyletswyddau a'r disgwyliadau o ran hyrwyddo dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, a oes unrhyw ystyriaethau ymarferol neu heriau y dylai'r cynigion eu hadlewyrchu, yn eich barn chi?

### 3.3.1 Themâu Allweddol

#### Cyfyngiadau ar Gapasiti

Fel a nodwyd mewn mannau eraill yn y cynigion, dywedwyd bod capasiti cyfyngedig a'r goblygiadau i lwyth gwaith ymarferwyr yn heriau sylweddol wrth ymateb i'r dyletswyddau a'r disgwyliadau mewn perthynas â datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd. Roedd hyn yn amlwg yn benodol ymysg ymatebwyr a oedd yn teimlo bod lleoliadau ac ysgolion eisoes o dan bwysau. Ar y llaw arall, roedd eraill yn teimlo y gallai fod goblygiadau cyllidebol i'r cynigion hefyd, gan gynnwys o ran rhyddhau staff i gymryd rhan mewn deialog broffesiynol. Roedd pryder hefyd ynglŷn â sut oedd sicrhau bod amser ar gael i staff ar bob lefel i gydweithio ac ar gyfer datblygiad proffesiynol:

> *Bydd angen amser a chyllid i hwyluso ymgysylltiad ystyrlon. Bydd hefyd angen rhywfaint o gydlynu mewn clystyrau a thu hwnt (mewn awdurdodau lleol a phartneriaethau rhanbarthol). Unwaith eto, mae hyn yn galw am neilltuo amser a chyllid.*

Swyddog Gwella Ysgolion, Awdurdod Lleol

> *Mae hyn yn galw am staffio a chapasiti ar raddfa fawr er mwyn cynnwys yr holl staff a rhanddeiliaid. Mae staff gweinyddol i gefnogi hyn yn hanfodol, ond mae cyllidebau'n gyfyngedig. Mae'r amserlen yn dynn ar gyfer Medi 22 tra'n ceisio dal i fyny yn sgil Covid, ymdrin ag absenoldeb staff, a datblygu cwricwlwm [blynyddoedd] 7 ac 8 a dosbarthiadau llawn a dysgu cyfunol. Mae angen asesu'r llwyth gwaith mewn perthynas â hyn ar frys. Nid yw'n rhoi unrhyw ystyriaeth i wahaniaethau rhwng lleoliadau cynradd neu uwchradd, pynciau, llwythi gwaith, a meintiau. Nid oes unrhyw gymorth ymarferol yn cael ei gynnig i ysgolion mewn unrhyw fan.*

Uwch Arweinydd

#### Cyfathrebu rhwng Lleoliadau ac Ysgolion

Teimlwyd y byddai cyfathrebu a chydweithio manwl yn hanfodol er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd sy'n ystyrlon a chydlynol. Dywedodd yr ymatebwyr y byddai angen ymrwymiad a pharch ar y cyd, yn enwedig rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd a lleoliadau eraill, er mwyn adeiladu cydberthnasau llwyddiannus:

> *Mae angen parch ar y cyd, yn ogystal â dealltwriaeth gyffredin rhwng pob rhanddeiliad. Mae gwerthfawrogi'r hyn a ddaeth yn flaenorol mor bwysig o ran cynnydd, e.e. ysgolion cynradd yn gwerthfawrogi'r hyn mae'r plant wedi'i ddysgu a'i brofi cyn y dosbarth meithrin (e.e. addysg gynnar yn y sector nas cynhelir, Dechrau'n Deg, mewnbwn gwarchodwyr plant ac ati) neu'r hyn mae'r plant wedi'i ddysgu gartref, a hefyd o ran ysgolion uwchradd yn gwerthfawrogi'r hyn sydd wedi'i gyflawni yn yr ysgol gynradd.*

Cynghorydd y Blynyddoedd Cynnar, Awdurdod Lleol

#### Cymorth Ehangach

Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn teimlo y byddai ar ysgolion angen cymorth ehangach, gan gynnwys er mwyn hwyluso deialog rhwng lleoliadau ac ysgolion. Awgrymwyd y byddai angen cymorth ymarferol parhaus gan awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys llywio a chyfarwyddo deialog broffesiynol rhwng lleoliadau ac ysgolion. O'r safbwyntiau hyn, byddai cymorth ehangach yn werthfawr er mwyn cefnogi ac annog cydweithio a thrafodaeth rhwng lleoliadau ac ysgolion.

#### Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Yn ogystal â chanllawiau a chymorth ehangach, cyfeiriodd yr ymatebwyr hefyd at bwysigrwydd cyfleoedd dysgu hygyrch o ansawdd uchel. Byddai hyn yn atgyfnerthu deialog broffesiynol, yn ogystal â datblygu hyder a sgiliau staff mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd yn gyffredinol ac asesu a chynnydd yn benodol:

> *Byddai datblygiad proffesiynol wedi'i ddarparu gan y consortia rhanbarthol yn sicrhau cysondeb o ran hyfforddiant ac yn hybu dealltwriaeth gyffredin. Dylai fod disgwyl i bob ysgol ymwneud â'r hyfforddiant fel bod cysondeb ledled Cymru.*

Athro

## 3.4 Gwybodaeth Ychwanegol a Dealltwriaeth Gyffredin o Gynnydd

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd am eu barn am a fyddai unrhyw wybodaeth ychwanegol yn ddefnyddiol er mwyn llywio deialog broffesiynol oddi mewn i ysgolion a lleoliadau a rhyngddynt.[8]

### 3.4.1 Themâu Allweddol

#### Canllawiau Pellach ac Esiamplau

Unwaith eto, ystyriwyd y byddai'n werthfawr cael rhagor o wybodaeth a chanllawiau i lywio'r ymarfer. Pe na byddai ysgolion yn sicr ynglŷn â sut i fwrw ymlaen, roedd pryder y gallent fod yn wyliadwrus yn sgil pryderon ehangach fel atebolrwydd. Teimlwyd y gallai esiamplau fod yn werthfawr er mwyn llywio deialog broffesiynol, ynghyd â rhoi syniad i leoliadau ac ysgolion o'r hyn i anelu ato:

[8] Cwestiwn 11: Pa wybodaeth ychwanegol a fyddai'n fuddiol i gefnogi'r broses gyffredinol o ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd?

> *Rydym yn deall ac yn cefnogi awydd Llywodraeth Cymru i ddatblygu methodoleg lle mae cyfarfodydd rhwng ysgolion yn gyfrwng cadarnhaol i ddatblygu dealltwriaeth gref o gynnydd a hybu gwelliant yn sgil hynny. I wneud hyn, credwn y bydd angen rhagor o ganllawiau i helpu ysgolion i ddilyn yr amserlenni a sicrhau bod sylwedd y cyfarfodydd hyn yn fuddiol i ysgolion* […]. *Byddai'n ddefnyddiol pe byddai yno ragor o ganllawiau i ysgolion cynradd ar y ffordd orau iddynt sicrhau dealltwriaeth gyffredin o gynnydd o'u cwricwlwm hwy i'r amryw nifer o ysgolion uwchradd y maent yn partneru â hwy (ar wahân i'r ysgol y mae ganddynt gynllun trosglwyddo â hi).*

Estyn

Y thema allweddol a godwyd gan yr ymatebwyr oedd cynnwys rhagor o ganllawiau ymarferol, gan gynnwys esiamplau, i gefnogi a llywio deialog broffesiynol oddi mewn i leoliadau ac ysgolion a rhyngddynt. Teimlwyd bod hyn yn bwynt trafod gwerthfawr, yn ogystal â gweithio tuag at ddealltwriaeth gyffredin o gynnydd sy'n gydlynol a chyson:

> *Cyfathrebu da, hyfforddiant a chydweithio rhwng ysgolion / clystyrau o ysgolion, gan rannu, gweld esiamplau o ymarfer o'r hyn yw'r Cwricwlwm i Gymru.*

Athro

> *Enghreifftiau o sut beth fyddai mewn gwahanol leoliadau ac ysgolion.*

Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd

> *Byddai astudiaethau achos / enghreifftiau syml o arferion da o ran sut mae gwahanol leoliadau'n ymgymryd â'r prosesau hyn yn effeithiol yn fuddiol i eraill gael darlun o sut y gallai / y bydd yn gweithio yn ymarferol. Gallai'r rhain fod ar ffurf adroddiad ysgrifenedig byr, fideos, blogiau ac ati. Byddai enghreifftiau o amserlenni, cofnodion cyfarfodydd ac ati, o sut mae ysgolion yn casglu gwybodaeth yn effeithiol a chryno hefyd yn ddefnyddiol.*

Consortiwm Rhanbarthol

## 3.5 Cyfarfodydd a Dealltwriaeth Gyffredin o Gynnydd

Er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, cyflwynodd y cynigion y disgwyliad y byddai lleoliadau ac ysgolion yn cyfarfod yn fewnol ac ymysg ei gilydd unwaith bob tymor i drafod dulliau o fynd i'r afael â chynnydd a rhannu'r hyn a ddysgwyd. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn teimlo bod y dull hwn yn briodol a realistig.[9]

[9] Cwestiwn 12: A yw'r awgrym y dylid cyfarfod bob tymor yn briodol ac yn realistig?

### 3.5.1 Themâu Allweddol

#### Priodol a Realistig

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ystyried bod y cynnig i gwrdd bob tymor yn briodol a realistig. O'r safbwyntiau hyn, byddai deialog broffesiynol barhaus yn bwysig er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd a gyrru gwelliannau mewn ysgolion:

> *Mae hyn yn rheidrwydd. Heb ganllawiau eglur ar y diben, rwy'n pryderu y gallai droi'n siop siarad. Mae angen cyfeillion beirniadol arnom ni a fydd yn ein cefnogi yn ogystal â'n herio. Mae angen i ni wthio rhagoriaeth. Nid yw plant Cymru yn mynnu nac yn haeddu dim llai.*

Pennaeth, Ysgol Uwchradd

#### Cyfyngiadau ar Gapasiti

Roedd rhai'n ystyried bod yr amser cyfyngedig sydd ar gael i ymarferwyr yn rhwystr posibl i ddeialog broffesiynol. Dyma'r rheswm allweddol a gynigiwyd gan yr ymatebwyr hynny a oedd yn teimlo nad oedd y cynigion yn realistig:

> *Mewn byd delfrydol, mae'n briodol a realistig, ond mae'r realiti'n galw am drefn ac adnoddau. Pwy sy'n mynychu? Pwy sy'n arwain? Cwricwlwm pwy sydd flaenaf? Pwy sy'n cydlynu? Pryd maen nhw'n adrodd yn ôl? Pwy sy'n talu am y costau ac ar draul beth?* [...] *Mae pob dyletswydd, partneriaeth a menter sy'n ofynnol gan y gyfraith bresennol yn tynnu ar gapasiti ysgolion ac maen nhw i gyd yn rhesymol a chanmoladwy ar eu pen eu hunain, ond gyda'i gilydd maen nhw'n gorlwytho system lle mae capasiti a chyllid wedi gostwng mewn termau real.*

Uwch Arweinydd

> *Nid mewn gwirionedd. Nid yw'n ddigon o amser, ond does gennym ni ddim rhagor o amser. Mae bod allan o'r ystafell ddosbarth o gwbl yn anodd iawn ar hyn o bryd.*

Athro

# 4 Cynlluniau Trosglwyddo

Mae'r cynigion hefyd yn cyflwyno disgwyliadau ynglŷn â datblygu cynlluniau trosglwyddo i ddysgwyr sy'n symud rhwng o ysgolion cynradd ac uwchradd.

**Crynodeb o'r Cynigion**


Er mwyn sicrhau parhad dysgu a chynnydd priodol sy'n parhau ac sy'n cael ei gefnogi i ddysgwyr rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, mae cynllunio'n effeithiol yn hollbwysig. Mae Llywodraeth Cymru eisiau diwygio gofynion statudol presennol mewn perthynas â chynlluniau trosglwyddo i sicrhau eu bod yn cydweddu ag ethos y Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â gwneud cynlluniau trosglwyddo newydd mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd. Byddai hyn yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth i gynorthwyo ymarferwyr i ddeall a chefnogi cynnydd dysgwyr wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol uwchradd.

## 4.1 Eglurder y Cynigion

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd y cynigion yn eglur ynghylch pa ysgolion fyddai angen llunio cynlluniau trosglwyddo.[10]

### 4.1.1 Canfyddiadau Cyffredinol

Roedd mwyafrif cyffredinol yr ymatebwyr yn eglur ynglŷn â pha ysgolion fyddai angen llunio cynlluniau trosglwyddo.




[10] Cwestiwn 13: A yw'r cynigion yn eglur o ran pa ysgolion fydd angen llunio Cynlluniau Trosglwyddo?

### 4.1.2 Themâu Allweddol

Disgwyliadau Eglur

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod y cynigion a'r disgwyliadau ar ysgolion o ran cynlluniau trosglwyddo yn eglur ac effeithiol. Roeddent yn aml yn cydnabod gwerth a phwysigrwydd dulliau mwy unigol ac aflinol i gefnogi cynnydd, gan gynnwys ar draws trosglwyddiadau:

> *Mae'r cynigion yn eglur o ran yr hyn maent yn gofyn amdano ac mae digon o hyblygrwydd ynddynt i alluogi ysgolion a chlystyrau i arloesi. Mae'r cynigion yn rhoi lle i glystyrau bersonoli'u trefniadau trosglwyddo. Mae adolygu'r cynigion bob tair blynedd yn rhoi cyfle i newid. Dylid cynnwys eglurder ynglŷn â rôl staff, gan gynnwys sut mae eu trosglwyddiad hwy'n effeithio'n gadarnhaol ar drosglwyddiad dysgwyr.*

Consortiwm Rhanbarthol

Trosglwyddiadau o'r Sector Nas Cynhelir

Roedd rhai'n teimlo y gallai cynllunio'r broses drosglwyddo gael ei hymestyn i gynnwys dysgwyr sy'n trosglwyddo o leoliadau meithrin nas cynhelir i mewn i ysgolion cynradd. O'r safbwyntiau hyn, byddai'r dull hwn yn effeithiol o ran cefnogi trosglwyddiadau ehangach, a gellid cyfeirio'n fwy penodol at y gofynion ar y sector nas cynhelir ynghylch cynllunio'r broses drosglwyddo.

> *Mewn perthynas â thudalennau 14-16* [y canllawiau] *mae hyn yn canolbwyntio ar drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Nid oes unrhyw gynigion ynglŷn â throsglwyddo i'r ysgol o leoliad nas cynhelir nac ar gyfer plant sy'n cychwyn mewn ysgol am y tro cyntaf heb fod wedi mynychu lleoliad nas cynhelir. Mae angen newid teitl yr adran hon neu mae angen newid y geiriad i adlewyrchu trosglwyddiadau ehangach.*

PACEY Cymru


## 4.2 Gwybodaeth a Phrosesau ynghylch Cynlluniau Trosglwyddo

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno y byddai'r cynigion newydd ar gyfer gwybodaeth mewn cynlluniau trosglwyddo a'r prosesau sy'n bwydo i mewn i'w datblygiad yn cefnogi parhad dysgu a chynnydd yn effeithiol.[11]

[11] Cwestiwn 14: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y bydd y cynigion newydd ar gyfer gwybodaeth a gynigir yn y cynlluniau trosglwyddo a'r prosesau sy'n bwydo i mewn i'w datblygiad yn cefnogi parhad dysgu a chynnydd yn effeithiol?

### 4.2.1 Canfyddiadau Cyffredinol

Unwaith eto, roedd mwyafrif clir o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai'r cynigion yn cefnogi parhad dysgu a chynnydd yn effeithiol:




### 4.2.2 Themâu Allweddol

#### Cynlluniau Trosglwyddo Effeithiol

Roedd pwysigrwydd cefnogi trosglwyddiadau'n cael ei gydnabod er mwyn sicrhau a chefnogi parhad dysgu a chynnydd. Yn benodol ac ymhlyg o'r safbwyntiau hyn, roedd ymarferwyr ac uwch arweinwyr yn cydnabod y rôl bwysig sydd nid yn unig i gyfathrebu rhwng ysgolion ond hefyd potensial hynny i gefnogi dysgu a chynnydd yn effeithiol.

#### Llesiant a Chynlluniau Trosglwyddo

Roedd rhywfaint o betruster ymysg rhai ymarferwyr ynglŷn â chynnwys gwybodaeth yn ynghylch llesiant dysgwyr yn eu cynlluniau trosglwyddo, yn enwedig mewn perthynas â'u hiechyd meddwl. O'r safbwyntiau hyn, roedd yr ymarferwyr yn teimlo nad oeddent o anghenraid mewn sefyllfa dda i ffurfio barn wybodus ynglŷn ag iechyd meddwl dysgwyr:

> *Beth mae'r "effeithiau ar lesiant meddyliol ac emosiynol" yn ei olygu a pha sgiliau, offer a manylion fydd yn ategu hyn i'w esbonio? Gall athrawon ddisgrifio'r symptomau maen nhw'n eu gweld fel ymarferwyr addysgol, ond nid ydwyf yn credu eu bod wedi'u hyfforddi i ffurfio barn ar iechyd meddwl heb fewnbwn gan ymarferwyr hyfforddedig. Mae'r cysyniad yn gadarn, ond byddai cyflawni hyn mewn lleoliad addysg heb gymorth yn gul ac arwynebol.*

Pennaeth, Ysgol Uwchradd

*Sut bydd anghenion ac iechyd meddwl a llesiant emosiynol pob dysgwr unigol yn cael eu hystyried a'u cefnogi wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd? Mae hyn yn osodiad enfawr lle mae gofyn i addysgwyr asesu a chynllunio ar gyfer diagnosis a thriniaeth iechyd meddwl. Ai dyna ystyr hyn mewn gwirionedd? Os felly, sut mae modd ei wneud yn ddiogel a phriodol mewn system sydd heb unigolion hyfforddedig yn eu lle? Sut gall partneriaid cynradd gyflawni hyn heb y seilwaith i wneud hynny? Rwy'n credu bod hwn yn gam moesol iawn, ond rwy'n credu nad yw'r effaith o'i gael yn anghywir, yn sgil diffyg hyfforddiant neu adnoddau, wedi'i ystyried.*

Athro

Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo y gallai gwybodaeth fwy cyffredinol am lesiant dysgwyr fod yn werthfawr er mwyn cefnogi trosglwyddiadau effeithiol:

*Mae'n dda gweld bod yno ddisgwyliad i rannu gwybodaeth am lesiant gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr — bydd yr athrawon i gyd yn ymwybodol o sut mae pob disgybl yn dysgu orau, yn ogystal â'r hyn y gallant wneud. Bydd llawer yn dibynnu ar ansawdd y cynlluniau trosglwyddo, pa mor dda mae ysgolion a lleoliadau yn cydweithio a pha mor barod ydynt i wneud hynny. Bydd yn fater pwysig iawn i ysgolion a lleoliadau.*

Tîm Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar a Ariennir

## 4.3 Cynlluniau Trosglwyddo yn Ymarferol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd unrhyw ystyriaethau ymarferol ynglŷn â'r cynigion am gynlluniau trosglwyddo.[12]

### 4.3.1 Themâu Allweddol

#### Cyfyngiadau ar Gapasiti

Unwaith eto, roedd cyfyngiadau ar gapasiti yn cael eu hystyried yn rhwystr mawr posibl i ddatblygu a gweithredu trefniadau trosglwyddo yn effeithiol. Roedd yr ymatebwyr yn bryderus ynglŷn â'r amser sydd ei angen ac a fyddai cymorth ariannol i gynllunio'r broses drosglwyddo. Roedd hyn yn cynnwys amser sy'n cael ei dreulio y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn achos athrawon blwyddyn 6, amser i adrodd am nifer fawr o ddisgyblion, ac amser i feithrin perthnasau ag amryw ysgolion a lleoliadau bwydo, a chyfeiriwyd at bob un o'r rhain fel pryderon. At hynny, amlygwyd y gallai fod angen datblygiad proffesiynol er mwyn ymgysylltu â'r cynigion yn effeithiol:

*Bydd amser yn heriol. Bydd angen i ysgolion uwchradd ymgymryd ag adroddiadau am gannodd o ddisgyblion ar adeg trosglwyddo. Rydym ni'n ymdopi'n dda â hyn ar hyn o*

[12] Cwestiwn 15: Mewn ymateb i'r dyletswyddau a'r disgwyliadau o ran trosglwyddo, a oes unrhyw ystyriaethau ymarferol neu heriau y dylai'r cynigion eu hadlewyrchu yn eich barn chi?

> *bryd yn ein clwstwr ein hunain, ond mae wedi cymryd amser i ddatblygu proses foddhaol.*
>
> Athro

## Cysondeb rhwng Ysgolion

Testun pryder arall oedd cysondeb mewn dulliau gweithredu. O'r safbwyntiau hyn, gallai diffyg cysondeb mewn dull gweithredu arwain at amryw heriau ymarferol, gan gynnwys tanseilio effeithiolrwydd y dull gweithredu:

> *Cywirdeb systemau FfTC* [Ffeiliau Trosglwyddo Cyffredin] *fel bod gwybodaeth disgyblion yn cael ei throsglwyddo'n gywir i ysgolion,* [a] *chysondeb mewn perthynas â'r data crynodol a ffurfiannol sy'n cael ei rannu. Mae angen i ysgolion fynd i'r afael â phroffiliau un dudalen mewn ffordd gyson fel y gall y prosesau trosglwyddo gael eu cryfhau. A fydd proses fwy cadarn ar gyfer adrodd am lesiant meddyliol ac emosiynol ar gyfer trosglwyddo?*
>
> Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd

Roedd eraill wedyn yn teimlo y byddai rhagor o wybodaeth a chanllawiau'n fuddiol i ddeall y dulliau a'r wybodaeth fyddai'n cael eu cynnwys yn y cynlluniau trosglwyddo. O'r safbwyntiau hyn, roedd rhagor o ganllawiau ac esiamplau'n cael eu hystyried yn werthfawr er mwyn gweithredu ar y cynigion:

> *Mae'r sail resymegol yn eglur, ond byddai mwy o fanylion yn ddefnyddiol am sut beth allai arfer dda fod.*
>
> Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd

## Nifer yr Ysgolion Bwydo

Yn gysylltiedig â thema pwysigrwydd cysondeb, mynegodd rhai ymatebwyr hefyd yr her y gallai fod gan rai ysgolion nifer fawr o ysgolion bwydo. Mae heriau i hyn wrth ddatblygu cydberthnasau a sicrhau cysondeb a chyfathrebu effeithiol ar draws nifer o leoliadau ac ysgolion er mwyn cefnogi trosglwyddiadau. Gallai hyn olygu bod gofyn i ysgolion uwchradd wneud synnwyr o amrywiaeth eang o arddulliau a fformatau er mwyn deall cynnydd disgyblion. Cyfeiriodd eraill wedyn at y posibilrwydd y gallai disgyblion drosglwyddo o ysgolion nad ydynt yn ysgolion bwydo, gan gymhlethu'r sefyllfa ymhellach:

> *Hefyd, mae angen mynd i'r afael â'r cyfeiriadau achlysurol at gynlluniau trosglwyddo i ddisgyblion sy'n cyrraedd o ysgolion nad ydynt yn ysgolion bwydo. Gallai hyn yn hawdd ymestyn i 20+ o ysgolion cynradd, gan gynnwys y tu allan i'n hawdurdod lleol.*
>
> Pennaeth, Ysgol Uwchradd

## Cyfleoedd i Gyfathrebu a Chydweithio

Cyfeiriodd yr ymatebwyr at bwysigrwydd ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth ynghylch trosglwyddiadau a chynllunio. Roedd hyn yn cynnwys darparu amser a chyfleoedd i ysgolion ddod ynghyd i weithio ar ddylunio'r cwricwlwm, monitro cynnydd, a rhannu gwybodaeth, fel bod trosglwyddiadau'n gydlynol ac effeithiol.

## Ansawdd Cynlluniau Trosglwyddo

Yn gysylltiedig â chyfyngiadau ar gapasiti, teimlwyd y byddai llawer yn dibynnu ar ansawdd y cynlluniau trosglwyddo a gallu a pharodrwydd lleoliadau i gydweithio arnynt mewn ffordd ystyrlon. Nododd Estyn y byddai'n rhaid i drosglwyddiad llwyddiannus gael ei gefnogi drwy addysgu ac y dylid rhoi ystyriaeth i hyn. Teimlwyd felly y gallai'r ansawdd amrywio o'r naill ysgol i'r llall ac ar draws y wlad:

> *Rydym yn llawn gefnogi nod Llywodraeth Cymru i sicrhau y caiff dysgwyr eu cefnogi'n effeithiol wrth drosglwyddo rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd* […]. *Fodd bynnag, nodwn ychydig anawsterau yn y cynigion presennol* […]. *Mae paragraff 6.7 yn nodi'n dda y dylai cynlluniau trosglwyddo 'ystyried parhad dysgu, sut y caiff hynny ei gefnogi drwy addysgu a dysgu wrth iddo gael ei ddatblygu'. Mae hwn yn bwynt pwysig, gan fod trosglwyddiad llwyddiannus nid yn unig yn dibynnu ar barhad cynllunio, ond hefyd addysgu. Fodd bynnag, pan mae paragraff 6.11 yn nodi gofynion cynlluniau trosglwyddo, nid oes cyfeiriad clir at addysgu fel ystyriaeth.*

Estyn

# 5 Rhoi Adroddiad i Rieni a Gofalwyr

Mae’r cynigion hefyd yn cyflwyno disgwyliadau ynghylch rhoi adroddiad i rieni a gofalwyr.

**Crynodeb o’r Cynigion**

Mae ymgysylltu â chymuned ehangach yr ysgol, yn enwedig rhieni a gofalwyr, yn un o egwyddorion sylfaenol y Cwricwlwm i Gymru. Mae cyfathrebu’n effeithiol â rhieni a gofalwyr drwy’r amser yn ffordd bwysig o feithrin cydberthnasau cadarnhaol. Gall hyn helpu cynnydd dysgwyr drwy helpu rhieni a gofalwyr i ddatblygu dealltwriaeth glir o gynnydd eu plentyn.

Mae’r cynigion hefyd yn cyflwyno awgrymiadau ynghylch y math o wybodaeth y dylai ysgolion fod yn ceisio ei chyfleu i rieni a gofalwyr. Mae hyn yn cynnwys y gofynion sylfaenol ar faint o wybodaeth sy’n cael ei chyfleu i rieni. Yr ysgolion fydd yn penderfynu ar union gynnwys a graddau’r wybodaeth y byddant yn ei rhoi, gan adlewyrchu eu hamgylchiadau lleol, cwricwlwm yr ysgol, ac anghenion dysgwyr. Dylai’r wybodaeth a ddarperir gael ei theilwra i’r dysgwr unigol a dylai ganolbwyntio ar gefnogi ei ddatblygiad a’i gynnydd. At hynny, mae’r cynigion yn cyflwyno’r disgwyliad y dylid cyfathrebu â rhieni a gofalwyr bob tymor.

### 5.1.1 Safbwyntiau’r Rhieni a’r Gofalwyr

Mewn dau weithdy, ymgysylltwyd â rhieni a gofalwyr plant 6-15 oed i glywed eu barn. Siaradodd rhieni a gofalwyr yn gyson am bwysigrwydd a gwerth bod ysgolion yn cyfathrebu â hwy. Roedd y themâu allweddol yn cynnwys ansawdd, yn hytrach na maint, y wybodaeth y mae lleoliadau ac ysgolion yn ei rhoi. Dywedodd llawer o rieni a gofalwyr eu bod o’r farn bod gwybodaeth ymarferol ac amserol yn werthfawr er mwyn ymwneud ag addysg eu plant.

O ran y wybodaeth yr hoffent ei derbyn, roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am dopigau sydd am godi ac y byddai eu plant yn ymwneud â hwy er mwyn iddynt allu ategu’r dysgu gartref. At hynny, roeddent yn cyfeirio at wybodaeth am gynnydd, gan gynnwys cyngor ymarferol ar sut gallai rhieni a gofalwyr gynorthwyo eu plant, yn arbennig mewn meysydd lle roeddent yn llithro’n ôl. Pan gyflwynwyd rhestr i’r rhieni a’r gofalwyr o’r wybodaeth y dylai ysgolion geisio ei rhoi iddynt, roeddent yn croesawu’r cynigion. Roedd hyn yn arbennig o wir o ran deall llesiant ehangach y plant, ac roedd y rhieni a’r gofalwyr yn croesawu hyn yn arbennig.

O safbwyntiau rhieni a gofalwyr, roedd yn ymddangos bod ansawdd a chysondeb y wybodaeth sy’n cael ei rhoi gan leoliadau ac ysgolion yn amrywio’n sylweddol. Cyfeiriodd rhai rhieni a gofalwyr at achosion lle nad oedd y wybodaeth yn ddefnyddiol. Roedd hyn yn tueddu i fod yn wybodaeth gyffredinol, fformiwläig nad oedd yn ymwneud yn benodol â’r dysgwr na chwaith yn wybodaeth yr oedd modd gweithredu arni.

Roedd deialog hefyd yn cael ei hystyried yn bwysig. Roedd llawer yn croesawu’n arbennig y cyfle i ofyn cwestiynau a thrafod cwestiynau neu bryderon. O’r safbwyntiau hyn, roedd rhoi

amrywiaeth o gyfleoedd i rieni a gofalwyr ddeall ac ymwneud ag addysg eu plant yn cael ei ystyried yn werthfawr.


### 5.1.2 Safbwyntiau'r Dysgwyr

Gofynnwyd i'r dysgwyr hefyd a oeddent yn teimlo bod cyfathrebu â'r rhieni a'r gofalwyr yn bwysig iddynt hwy. Mynegodd y dysgwyr yn gyson ei bod yn bwysig bod eu rhieni'n deall beth roeddent yn ei ddysgu yn yr ysgol. Roeddent yn teimlo ei bod bwysig i'w rhieni neu ofalwyr ddeall beth roeddent yn ei ddysgu yn yr ysgol fel eu bod wedyn yn gallu trafod gyda hwy a'u cefnogi. Dywedodd y dysgwyr y gallai eu rhieni eu helpu i fynd drwy waith nad oeddent wedi'i ddeall, a'i bod yn bwysig iddynt wybod beth roeddent yn dda am ei wneud a beth nad oeddent yn dda am ei wneud.

Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod anghytundeb ynglŷn â chynnwys gwybodaeth ehangach am lesiant wrth gyfathrebu â rhieni a gofalwyr. Roedd yn aml gan ddysgwyr deimladau cryf am y pwnc. Mynegodd rhai eu bod yn teimlo ei bod yn bwysig iawn i'r rhieni a'r gofalwyr wybod am eu llesiant fel y gallent eu cefnogi pe byddai angen. Roedd eraill yn teimlo y dylai athro ofyn am eu caniatâd i rannu gwybodaeth am eu llesiant gyda'u rhieni, am mai eu 'busnes preifat hwy' yw eu teimladau ac efallai 'nad ydynt eisiau i'w rhieni wybod'. Roedd eraill wedyn yn teimlo nad cyfrifoldeb yr athro oedd gwneud sylwadau amdano, a phe byddent eisiau ei drafod, byddent yn gwneud hynny.

## 5.2 Eglurder y Cynigion

Gofynnwyd i'r ymatebwyr yn gyntaf a oeddent yn teimlo bod y disgwyliadau a osodir ar leoliadau ac ysgolion yn eglur.[13] Yn eu hymateb, roedd mwyafrif clir o'r ymatebwyr yn teimlo'n gadarnhaol bod y cynigion yn eglur:




[13] Cwestiwn 16: A yw'r disgwyliadau a osodir ar leoliadau ac ysgolion o ran rhoi adroddiad i rieni a gofalwyr yn eglur?

### 5.2.1 Themâu Allweddol

#### Disgwyliadau Eglur

O'r rhai a fynegodd eu bod yn teimlo bod y cynigion yn eglur, yn aml nid oeddent yn rhoi rhesymau am eu barn. O'r rhai a wnaeth, roedd y themâu allweddol yn cynnwys y ffaith bod llawer o leoliadau neu ysgolion eisoes yn rhoi adroddiad ar gynnydd yn rheolaidd, a'u bod yn teimlo bod y cynigion yn cadarnhau eu dull gweithredu:

> *Rydym wedi bod yn rhoi adroddiad ar gynnydd yn ein hysgol ni am flynyddoedd lawer, felly mae'r athrawon yn gyfarwydd â gweithio fel yma.*

Pennaeth, Ysgol Gynradd

#### Dulliau a Phrosesau Adrodd

Maes allweddol i gael eglurhad pellach yn ei gylch ym marn yr ymatebwyr oedd y dulliau a'r prosesau y dylai ymarferwyr ac ysgolion eu defnyddio i gyfathrebu â rhieni a gofalwyr. Roedd y rhain yn cynnwys rhagor o ganllawiau ar arferion gorau a sut i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr anodd eu cyrraedd:

> *Mae'r egwyddor o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni a gofalwyr am gynnydd yn amlach yn un dda. Nid yw'r agweddau ymarferol (7.11), heb gynyddu llwyth gwaith staff yn helaeth mewn perthynas â rhoi adroddiad bob tymor, yn eglur. Beth yw'r "fformatau gwahanol" ar wahân i ysgrifennu adroddiad? Mae adroddiad ysgrifenedig ar e-bost yn dal i fod yn adroddiad ysgrifenedig.*

Llywodraethwr, Corff Llywodraethu

#### Adrodd ar Gynnydd

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad oedd yn eglur sut y dylai cynnydd gael ei gyfathrebu i rieni a gofalwyr. Nododd rhieni a gofalwyr hefyd eu bod yn teimlo bod gwybodaeth am gynnydd yn bwysig, gan gynnwys pan fo dysgwr ar ei hôl hi neu pan fyddai angen mwy o gymorth. Gallai fod angen mwy o fanylder ar sut i gyfathrebu cynnydd yn well o dan y cynigion newydd:

> *Mae adran 7.8 yn benodol yn rhoi dadansoddiad eglur o ba fath o wybodaeth sydd angen ei rhoi i rieni/gofalwyr, ac mae'r amserlen ar gyfer rhannu gwybodaeth (h.y. bob tymor, nid o anghenraid yn ysgrifenedig) yn eglur. Ond beth sydd ddim yn eglur yw sut i roi adroddiad ar gynnydd a sut i gymharu cyflymder cynnydd yn erbyn y garfan (neu hyd yn oed mewn cymhariaeth â'r dysgwr ar gyfnod cynharach yn yr ysgol).*

Uwch Arweinydd, Ysgol Arbennig

## 5.3 Rhoi Adroddiad i Rieni a Gofalwyr yn Ymarferol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn am eu barn am unrhyw ystyriaethau ymarferol wrth roi'r cynigion ar waith.[14]

### 5.3.1 Themâu Allweddol

#### Cyfathrebu â Rhieni neu Ofalwyr

Cyfeiriodd yr ymatebwyr at bwysigrwydd gwybodaeth a chyfathrebu ystyrlon sy'n cynorthwyo rhieni i ymwneud ag addysg eu plant. Roedd rhai'n teimlo y byddai hyn yn galw am newid pwyslais o gyfathrebu wedi'i safoni i arddull fwy personol o gyfathrebu gyda chyfleoedd i gynnal deialog. O'r safbwyntiau hyn, byddai newidiadau mewn dull gweithredu a diwylliant yn bwysig:

> *Bydd ar rieni angen llawer o wybodaeth er mwyn deall pam/pryd mae'r adrodd yn newid a beth yw'r disgwyliadau. Fodd bynnag, dyna i gyd y mae'r rhan fwyaf o rieni eisiau ei wybod yw sut mae eu plentyn yn rhyngweithio'n bersonol/cymdeithasol ag eraill, gan gynnwys eu llesiant, ynghyd ag adroddiad ar lythrennedd a mathemateg. Ar lefel ysgol gynradd, nid ydynt yn rhoi llawer o ystyriaeth i berfformiad eu plentyn ym mhob maes yn y cwricwlwm. Mae rhieni'n aml yn dweud wrthym eu bod yn darllen y sylwadau cyffredinol, llythrennedd, a mathemateg, ac yn bras ddarllen y gweddill. Mae angen i ni wrando ar hyn a threulio mwy o amser efallai ar y sylwadau cyffredinol, gan eu hysgrifennu'n bersonol a pheidio â thorri a gludo o raglen ysgrifennu adroddiadau. Bydd hyn yn cynnig llawer gwell dealltwriaeth o ddatblygiad cyfannol y plentyn. Yr her fan yma yw argyhoeddi athrawon mai dyma'r ffordd ymlaen. Mae yma her hefyd ynghylch yr amser sydd ei angen i lunio adroddiadau wedi'u cofnodi'n bersonol. Mae'r athrawon hynny sydd eisoes yn ysgrifennu adroddiadau o'r natur bersonol yma yn treulio eu gwyliau hanner tymor cyfan yn eu llunio. Bydd nifer o athrawon yn amharod i dreulio'r amser yma.*

Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd

#### Rhieni neu Ofalwyr Anodd eu Cyrraedd

Roedd yno un mater allweddol yn ymwneud â chyfathrebu'n effeithiol â rhieni a gofalwyr nad ydynt efallai'n ymwneud yn rhagweithiol ag addysg eu plant. O'r safbwyntiau hyn, roedd angen i'r ffocws fod ar gynorthwyo ymarferwyr ac ysgolion i ymgysylltu'n effeithiol â'r rhieni a'r gofalwyr yma:

[14] Cwestiwn 17: Mewn ymateb i'r dyletswyddau o ran rhoi adroddiad i rieni a gofalwyr, a oes unrhyw ystyriaethau ymarferol neu heriau y dylai'r cynigion eu hadlewyrchu yn eich barn chi?

> *Bydd hyn yn cymryd amser rhyddhau i athrawon i sicrhau bod pob rhiant/gofalwr yn derbyn cyfleoedd o ansawdd da, ac ati. Sut ydym yn sicrhau bod y rhieni "anodd eu cyrraedd" hynny hefyd yn ymgysylltu er budd eu plant?*
>
> Pennaeth, Ysgol Gynradd

## Cyfyngiadau ar Gapasiti

Cyfeiriwyd hefyd at fater amser ac adnoddau i ehangu a dyfnhau'r cyfathrebu yn dymhorol. O'r safbwyntiau hyn, roedd paratoi ac anfon gohebiaeth ac adroddiadau'n cymryd amser, a gallai hynny dynnu sylw oddi ar weithgareddau eraill, gan gynnwys cynllunio a rhoi adborth i ddysgwyr:

> *Rwyf wedi bod yn arwain ar roi adroddiad ar asesiadau mewn ysgol uwchradd fawr am y saith mlynedd diwethaf, a fy mhrofiad i yw bod gwneud hynny mewn ffordd ystyrlon yn cymryd llawer o amser ac ymdrech gan athrawon. Mae'r gofynion beichus fan yma i roi adroddiad mor aml ar gymaint o feini prawf yn gwbl anymarferol. Y risg fan yma yw y bydd yn troi i fod yn ymarferiad ar sail cronfa sylwadau* [neu] *dicio blychau, yn hytrach na'i fod yn rhoi adroddiad ystyrlon i rieni, am fod gofyn rhoi adroddiadau mor aml. Nid oes ystyriaeth fan yma i lesiant yr athro neu lwyth gwaith yr athro.*
>
> Uwch Arweinydd

> *Gallai lefel y cyfathrebu ym mhob un fod yn anhawster o ran llwyth gwaith. Ar hyn o bryd, mewn ysgol uwchradd, mae'r staff yn ysgrifennu adroddiadau llawn unwaith ac yn rhoi adroddiadau data byr ddwywaith y flwyddyn ar gyfer pump grŵp blwyddyn. Os oes angen adroddiad ysgrifenedig bob tymor, wedyn rydym ni wedi mwy na dyblu'r llwyth gwaith.*
>
> Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd

## Cyfathrebu Dulliau Asesu

Teimlwyd y byddai'n bwysig i rieni a gofalwyr ddeall y sail resymegol y tu ôl i'r dulliau asesu a ddefnyddir: gan fod rhieni'n draddodiadol wedi derbyn gwybodaeth am ymddygiad eu plant a data meintiol ynglŷn â'u cynnydd, byddai gofyn egluro'r cynllun newydd yn ofalus. At hynny, teimlwyd y byddai angen egluro'r trefniadau adrodd newydd a monitro'u heffeithiolrwydd:

> *Yn hanesyddol, byddai gan rieni ddiddordeb mewn ymddygiad a data ansoddol am gynnydd eu plentyn, e.e. sgoriau safonedig, lefelau/deilliannau.*
>
> Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd

## 5.4 Cyfathrebu'n Dymhorol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a oeddent yn teimlo bod y disgwyliad i gyfathrebu bob tymor yn briodol a realistig.[15]

### 5.4.1 Themâu Allweddol

#### Priodol a Realistig

Roedd mwyafrif helaeth yr ymarferwyr yn meddwl bod yr awgrym yn briodol a realistig, cyhyd ag y gallai'r wybodaeth gael ei rhoi mewn amryw fformatau. Nodwyd bod llawer o ysgolion yn rhoi adroddiad bob tymor ar hyn o bryd drwy wahanol fathau o ymgynghori â rhieni, fel nosweithiau rhieni a dulliau eraill:

> *Mae llawer o ysgolion eisoes yn rhoi cyfleoedd tymhorol i rieni dderbyn diweddariad ar gynnydd eu plentyn. Gan nad yw hyn yn newid yn yr ymarfer i'r ysgolion hynny, mae hyn yn realistig.*
>
> Swyddog Gwella Ysgolion, Awdurdod Lleol

#### Pwysigrwydd Deialog

Dywedodd y rhieni a'r gofalwyr eu bod yn teimlo bod cyfathrebu'r ddwy ffordd yn bwysig. Teimlwyd bod y cyfle i ofyn cwestiynau a sicrhau bod ymarferwyr ar gael ac yn agored yn werthfawr. Roedd y rhieni a'r gofalwyr yn cydnabod bod ymarferwyr yn brysur; fodd bynnag, pe byddai materion yn codi, teimlwyd bod rhagor o amser mewn nosweithiau rhieni'n bwysig iawn ac yn werthfawr i'w helpu i ymwneud ag addysg eu plant. O'r safbwyntiau hyn, roedd y rhieni a'r gofalwyr yn teimlo bod cyfathrebu bob tymor yn briodol.

#### Amseru'r Cyfathrebu

Roedd y rhieni a'r gofalwyr hefyd yn teimlo bod amseru'r cyfathrebu yn bwysig. Roedd yno gydbwysedd rhwng rhoi digon o amser i rieni gynllunio a pheidio â'i wneud yn rhy bell ymlaen llaw. Awgrymodd y rhan fwyaf o'r rhieni y byddai dechrau'r tymor yn ddelfrydol, gan roi amser iddynt feddwl am weithgareddau a chyfleoedd dysgu eraill sy'n gysylltiedig â'r dysgu yn yr ystafell ddosbarth.

#### Angen Hyblygrwydd

Teimlwyd hefyd bod rhywfaint o hyblygrwydd wrth gyfathrebu â rhieni a gofalwyr yn bwysig. Roedd hyn yn cynnwys teilwra'r cyfathrebu er mwyn diwallu anghenion gwahanol ddysgwyr ynghyd â disgwyliadau rhieni a gofalwyr, ac ar gyfer gwahanol leoliadau ac ysgolion:

> *Mewn ysgol arbennig sydd â nifer is o ddisgyblion mae hyn yn gwbl realistig, ac rydym yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r rhieni (ffôn / adroddiad ysgrifenedig). Fodd bynnag,*

[15] Cwestiwn 18: A yw'r awgrym y dylid cyfathrebu â rhieni a gofalwyr bob tymor yn briodol ac yn realistig?

*gallai galwadau ffôn tymhorol fod yn anoddach mewn ysgolion cynradd ac uwchradd mwy o faint, o ystyried cyfyngiadau ar amserlen staff a'r nifer fawr o ddisgyblion sydd ym mhob dosbarth. Y tu hwnt i nosweithiau rhieni ac adroddiadau diwedd blwyddyn, efallai y gallai ysgolion ystyried llunio adroddiadau cynnydd interim (y mae llawer eisoes yn gwneud).*

Uwch Arweinydd, Ysgol Arbennig

Roedd hyblygrwydd hefyd yn berthnasol i'r dulliau cyfathrebu, gan gynnwys nid yn unig adroddiadau ysgrifenedig ond cyfathrebu llafar hefyd. Roedd y rhieni a'r gofalwyr yn arbennig yn croesawu'r gwahanol ddulliau cyfathrebu mewn gwahanol amgylchiadau.

### Amlder y Cyfathrebu

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod adrodd bob tymor yn rhy aml ac y byddai'n well gan rieni dderbyn adroddiad ysgrifenedig ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn groes i'r dewisiadau cyfathrebu a fynegwyd gan rieni a gofalwyr mewn gweithdai. Roedd yr ymatebwyr, fodd bynnag, yn teimlo bod perygl y byddai adrodd yn amlach yn troi i fod yn ymarferiad ticio blychau, yn hytrach na bod yn rhywbeth ystyrlon a ystyriwyd yn ofalus. Awgrymodd dau ymatebydd, er bod amlder yn beth cadarnhaol, y dylid pwysleisio y gallai fod yno hyblygrwydd yn y math o adroddiad; er enghraifft, nad oes yn rhaid iddo fod yn adroddiad ysgrifenedig:

*Mae llwyth gwaith athrawon eisoes yn rhy feichus. Mae angen i adroddiadau fod i'r diben ac nid cael eu rhoi'n wasgarog drwy gydol y flwyddyn, gan y byddai'n afrealistig ceisio rhoi'r holl adroddiadau ar ddiwedd y flwyddyn ar lefel uwchradd.*

Athro, Ysgol Uwchradd

## 5.5 Y Wybodaeth a Rennir â Rhieni a Gofalwyr

Yn ogystal ag amlder y cyfathrebu, cyflwynodd y cynigion ddisgwyliadau ynghylch y brif wybodaeth fyddai i'w rhannu â rhieni a gofalwyr. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn teimlo y byddai'r math o wybodaeth a amlinellir yn cefnogi dysgu a chynnydd.[16]

[16] Cwestiwn 19: A fyddai rhannu'r mathau o wybodaeth a amlinellir yn y cynigion â rhieni a gofalwyr yn cefnogi dysgu a chynnydd?

### 5.5.1 Themâu Allweddol

#### Darparu Gwybodaeth Dda ac Eglur

Yn y gweithdai, cyfeiriodd y rhieni at bwysigrwydd ansawdd y wybodaeth a'r cyfathrebu, yn hytrach na chynyddu'r maint yn unig. Roedd hyn yn cynnwys dyfnder y wybodaeth, yn ogystal â bod y wybodaeth wedi'i mynegi'n eglur. O'r safbwyntiau hyn, roedd deialog hefyd yn bwysig, gyda chyfleoedd i ofyn cwestiynau ac archwilio materion gyda'r ymarferwyr.

#### Gwybodaeth Ymarferol

Teimlwyd hefyd bod gwybodaeth ymarferol i gefnogi'r dysgu gartref yn bwysig iawn i rai rhieni a gofalwyr. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y topigau y byddai'r dysgwyr yn eu dysgu yn y dosbarth, ynghyd ag adborth ar feysydd y gallai'r dysgwyr weithio arnynt er mwyn hybu'u cynnydd. Dywedodd rhieni a gofalwyr hefyd y byddai'n werthfawr gwybod am y math o weithgareddau y gallent eu gwneud gyda'u plant er mwyn cefnogi'u dysgu.

#### Adrodd ar Lesiant

Roedd yno thema gyson ymysg ymatebwyr ynglŷn ag addasrwydd ymateb ynghylch llesiant dysgwyr, yn enwedig eu hiechyd meddwl. Er bod rhieni'n gyffredinol yn croesawu gwybodaeth am lesiant dysgwyr, roedd canfyddiadau'r dysgwyr rywfaint yn gymysg. Roedd rhai'n teimlo ei fod yn bwysig, ac roedd eraill yn ystyried nad oedd yn briodol. Roedd llawer o uwch arweinwyr, ymarferwyr a llywodraethwyr yr un modd yn teimlo nad oedd yn bosibl ffurfio barn gywir, ystyrlon a phriodol am lesiant cyffredinol dysgwr:

> *Crynodeb byr ynglŷn ag iechyd meddwl a llesiant emosiynol dysgwr yn gyffredinol; dydw i wir ddim yn meddwl bod canlyniad anfwriadol hyn wedi'i ystyried. Sut allai gael ei fesur? Sut gall addysgwr adrodd ar hyn i riant? Beth fydd yn digwydd pe byddent yn ei gael yn anghywir? Hynny yw,* [beth petawn i'n] *adrodd bod gan blentyn iechyd meddwl da* [ond] *bod y plentyn yn hunan-niweidio? Ym mhle fydd y posibilrwydd i herio?*

Pennaeth, Ysgol Uwchradd

> *Nid gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol ydym ni — ni ddylem fod yn gwneud sylwadau. Prin y mae adroddiadau'n cefnogi cynnydd – gweithredoedd yr athro sy'n gwneud hynny.*

Athro, Ysgol Uwchradd

O'r safbwyntiau hyn, byddai angen rhagor o hyfforddiant a chymorth er mwyn cynorthwyo athrawon i ymwneud â materion iechyd meddwl mewn ffordd ddiogel a mwy ystyrlon.

Aeth rhai’n bellach, gan awgrymu nad rôl ymarferwyr yw cymryd cyfrifoldeb llwyr am lesiant cyffredinol dysgwr; yn hytrach, roedd cyfrifoldeb hefyd ar rieni a gofalwyr i fonitro a chefnogi’r dysgwyr. Mewn gweithdai, nododd rhai ymarferwyr ac uwch arweinwyr y gallai’r gynsail o gynnwys gwybodaeth am lesiant greu’r canfyddiad mai cyfrifoldeb yr ysgolion yn unig yw llesiant dysgwyr. O’r safbwyntiau hyn, roedd llesiant dysgwyr yn gymhleth, ac roedd gan bawb sy’n eu cefnogi, gan gynnwys rhieni a gofalwyr, gyfrifoldeb i’r plentyn.

# 6 Y Gymraeg

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn am eu barn am y cynigion a'u heffeithiau posibl ar y Gymraeg. O gymharu â meysydd eraill y cynigion, ychydig yn unig o ymateb a gafwyd gan yr ymatebwyr i'r cwestiynau.[17]

## 6.1 Trin y Gymraeg yn Gydradd

### 6.1.1 Themâu Allweddol

Effaith Gadarnhaol

Teimlwyd yn gyffredinol y byddai integreiddio'r Gymraeg yn y cwricwlwm yn cael effaith gadarnhaol ar nifer y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac y byddai'n helpu i ymwreiddio'r Gymraeg mewn addysg.

Dim Effaith

Mynegodd eraill wedyn eu bod yn teimlo na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith neu y byddai'n cael effaith fechan iawn ar y Gymraeg.

Effaith Negyddol

Roedd ychydig o ymatebwyr yn meddwl y byddent yn cael effaith negyddol. Roedd y rhesymau a roddwyd yn cynnwys deall y byddai prinder athrawon sy'n addysgu'r Gymraeg yn cael ei waethygu gan y cynigion:

> *Gyda'r niferoedd is o athrawon sy'n addysgu'r Gymraeg, bydd hyn yn beth drwg (gan y bydd ysgolion yn lleihau'r ddarpariaeth).*

Athro, Ysgol Uwchradd

Mwy o Ffocws

Awgrymwyd bod angen strategaeth integredig hirdymor yn rhan o'r ddeddfwriaeth, gyda chyfleoedd wedi'u cynllunio i ddefnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys mewn asesiadau dechreuol ac asesiadau cynnydd a'r adran ar lesiant.

[17] Cwestiwn 20: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r ddeddfwriaeth hon yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar y canlynol: i) cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

### Rhagor o Gymorth

Teimlwyd y byddai angen cymorth allanol ar ysgolion er mwyn gyrru'r Gymraeg yn ei blaen, yn enwedig er mwyn cefnogi dysgwyr o gefndiroedd di-Gymraeg. At hynny, teimlwyd bod ar ysgolion angen cymorth gan rieni.

## 6.2 Sicrhau Effeithiau Cadarnhaol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn sut gallai'r cynigion gael eu cryfhau i sicrhau effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg.[18]

### 6.2.1 Themâu Allweddol

O'r 13 a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, dywedodd pump eu bod yn teimlo nad oedd angen unrhyw newidiadau.

### Darparu Canllawiau Dwyieithog

Awgrymodd yr ymatebwyr fod angen datblygu adnoddau yn y ddwy iaith, ac y dylid datblygu asesiadau dechreuol ac asesiadau eraill gyda'r Gymraeg yn rhan greiddiol ohonynt a rhoi ystyriaeth i leoliadau cyfrwng Cymraeg.

### Cyfathrebu rhwng Ysgolion Cyfrwng Cymraeg a Saesneg

Teimlwyd y dylid annog cyfarfodydd rhwng ysgolion i drafod asesu ac ati, ac awgrymwyd y gallai partneru ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg fod yn ffordd i sicrhau cydraddoldeb rhwng ysgolion a chynnig rhagor o gyfleoedd i staff a disgyblion glywed a siarad y Gymraeg.

### Rhagor o Gymorth i Rieni, Gofalwyr ac Ymarferwyr

Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai'r holl ymarferwyr gael mynediad i wersi Cymraeg a'r amser i wneud hynny. At hynny, teimlwyd y dylai hyfforddiant fod ar gael ar yr un graddau i' ymarferwyr yn y ddwy iaith. Awgrymwyd y dylai rhieni dderbyn hyfforddiant a chymorth er mwyn ymwneud â'u plant yn y Gymraeg.

### Dull Gweithredu ar gyfer yr Unigolyn

Awgrymodd dau ymatebydd y dylai'r dull gweithredu newydd ganiatáu i ddatblygiad sgiliau Cymraeg gael ei ystyried yn fwy ar sail yr unigolyn er mwyn caniatáu i ddysgwyr y Gymraeg gael eu hasesu'n decach (yn hytrach nag mewn cymhariaeth â disgyblion eraill sy'n rhugl yn yr iaith).

[18] Cwestiwn 21: Eglurwch hefyd sut y gellid llunio neu newid y ddeddfwriaeth hon yn eich barn chi, er mwyn: i) sicrhau neu gynyddu effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ii) sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

# 7 Casgliadau

Yn gyffredinol, roedd yno ddau safbwynt penodol ar y cynigion sydd wedi'u cyflwyno yn yr is-ddeddfwriaeth. Roedd y cyntaf yn canolbwyntio ar eglurder y cynigion o ran mynegi'r disgwyliadau sy'n cael eu gosod ar ysgolion. Ar y cyfan, amlygodd yr ymatebwyr ble fyddai mwy o eglurder yn ddefnyddiol, gan gynnwys er mwyn pennu cyfrifoldeb a threfniadau llywodraethu. Roedd hyn yn dueddol o olygu addasiadau cymharol fân i eiriad y cynigion.

Roedd yr ail safbwynt yn canolbwyntio ar oblygiadau ymarferol y cynigion. Awgrymodd hyn fod llawer o'r ymatebwyr yn mynd y tu hwnt i'r ddeddfwriaeth i ystyried sut beth fyddai asesu a chynnydd yn ymarferol. I lawer, byddai materion fel amser, hyder a sgiliau yn ganolog i roi'r cynigion ar waith yn effeithiol. Roedd yr ymatebwyr yn aml yn teimlo bod cyfyngiadau ymarferol yn cael eu gwaethygu gan y canfyddiad nad yw'r cynigion yn ddigon penodol na diffiniedig.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer dyfodol addysg sy'n ceisio grymuso lleoliadau ac ysgolion i chwarae rôl fwy gweithredol wrth ddylunio'r cwricwlwm ac asesiadau. Drwy sybsidiaredd, mae'n rhoi disgresiwn i leoliadau ac ysgolion wrth ddylunio a gweithredu trefniadau asesu. Mae diwygio'r cwricwlwm yn broses lle mae ymarferwyr yn dehongli, archwilio a mewnoli beth mae'r Cwricwlwm i Gymru yn ei olygu i ddysgu ac addysgu, a gall hynny gymryd amser. Mewn sgyrsiau ag uwch arweinwyr a llywodraethwyr, a thrwy'r ymatebion, roedd yn amlwg bod rhai'n dal i ddatblygu dealltwriaeth o'r diwygiadau, ac yn ansicr ynglŷn â sut y byddai popeth yn dod ynghyd neu sut y gallai popeth weithio yn eu lleoliad neu'u hysgol hwy. Mae hyn yn cynnwys deall hyd a lled canllawiau a fframwaith sydd gyda'i gilydd yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys mewn perthynas ag asesu a chynnydd. Er mwyn hybu'r broses honno, nododd yr ymatebwyr yn aml y byddai rhagor o ganllawiau, gan gynnwys esiamplau, yn werthfawr er mwyn dychmygu sut beth allai'r Cwricwlwm i Gymru a'r trefniadau asesu cysylltiedig fod.

Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth i deimlad ac amcanion cyffredinol yr is-ddeddfwriaeth arfaethedig, gan gynnwys ynghylch nodau'r cynigion a sut y byddent yn cefnogi cynnydd dysgwyr. Roedd y rhain, er enghraifft, yn cynnwys pwysigrwydd hybu cyfathrebu a deialog effeithiol â rhieni a gofalwyr, yn ogystal â datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd fel ffordd i wella ymarfer. Mae hyn yn awgrymu bod yno lefel o gonsensws ynghylch amcanion y ddeddfwriaeth, a oedd yn amodol ar amrywiaeth ehangach o gwestiynau ymarferol, gan gynnwys yr effaith bosibl ar lwyth gwaith. Gallai'r ymdrechion i ddatblygu'r canllawiau, yr hyfforddiant a'r cymorth ategol a gaiff eu cynnig i leoliadau ac ysgolion fod yn allweddol i oresgyn rhai o'r heriau hyn.

# Atodiad 1: Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 4 – A yw'r disgwyliadau a osodir ar leoliadau ac ysgolion o ran trefniadau asesu yn eglur? Esboniwch eich ateb:

Cwestiwn 5 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y bydd y dyletswyddau a'r disgwyliadau a osodir ar leoliadau ac ysgolion yn cefnogi cynnydd dysgwyr yn effeithiol yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru? Esboniwch eich ateb:

Cwestiwn 6 – Wrth ymateb i'r dyletswyddau a'r disgwyliadau o ran asesu, a oes unrhyw ystyriaethau ymarferol neu heriau y dylai'r cynigion eu hadlewyrchu yn eich barn chi?

Cwestiwn 7 – A yw'r ddyletswydd a osodir ar leoliadau ac ysgolion i gynnal asesiad dechreuol yn briodol ac yn realistig?

Cwestiwn 8 – A yw'r disgwyliadau a osodir ar leoliadau ac ysgolion o ran datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd yn eglur? Esboniwch eich ateb:

Cwestiwn 9 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y bydd y dyletswyddau a'r disgwyliadau a osodir ar leoliadau ac ysgolion yn helpu i ddatblygu a gweithredu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd yn effeithiol? Esboniwch eich ateb:

Cwestiwn 10 – Mewn ymateb i'r dyletswyddau a'r disgwyliadau o ran hyrwyddo dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, a oes unrhyw ystyriaethau ymarferol neu heriau y dylai'r cynigion eu hadlewyrchu, yn eich barn chi?

Cwestiwn 11 – Pa wybodaeth ychwanegol a fyddai'n fuddiol i gefnogi'r broses gyffredinol o ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd?

Cwestiwn 12 – A yw'r awgrym y dylid cyfarfod bob tymor yn briodol ac yn realistig?

Cwestiwn 13 – A yw'r cynigion yn eglur o ran pa ysgolion fydd angen llunio Cynlluniau Trosglwyddo? Esboniwch eich ateb:

Cwestiwn 14 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y bydd y cynigion newydd ar gyfer gwybodaeth a gynigir yn y cynlluniau trosglwyddo a'r prosesau sy'n bwydo i mewn i'w datblygiad yn cefnogi parhad dysgu a chynnydd yn effeithiol? Esboniwch eich ateb:

Cwestiwn 15 – Mewn ymateb i'r dyletswyddau a'r disgwyliadau o ran trosglwyddo, a oes unrhyw ystyriaethau ymarferol neu heriau y dylai'r cynigion eu hadlewyrchu yn eich barn chi?

Cwestiwn 16 – A yw'r disgwyliadau a osodir ar leoliadau ac ysgolion o ran rhoi adroddiad i rieni a gofalwyr yn eglur? Esboniwch eich ateb:

Cwestiwn 17 – Mewn ymateb i'r dyletswyddau o ran rhoi adroddiad i rieni a gofalwyr, a oes unrhyw ystyriaethau ymarferol neu heriau y dylai'r cynigion eu hadlewyrchu yn eich barn chi?

Cwestiwn 18 – A yw'r awgrym y dylid cyfathrebu â rhieni a gofalwyr bob tymor yn briodol ac yn realistig?

Cwestiwn 19 – A fyddai rhannu'r mathau o wybodaeth a amlinellir yn y cynigion â rhieni a gofalwyr yn cefnogi dysgu a chynnydd?

**Iaith**

Cwestiwn 20 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r ddeddfwriaeth hon yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:

i) cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi?

Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn 21 – Eglurwch hefyd sut y gellid llunio neu newid y ddeddfwriaeth hon yn eich barn chi, er mwyn:

i) sicrhau neu gynyddu effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
ii) sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 22 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

wavehill™

social and economic research

ymchwil cymdeithasol ac economaidd

01545 571711
wavehill@wavehill.com
wavehill.com